**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**NORTH WALES FIRE AND RESCUE AUTHORITY**

Bydd cyfarfod o'r **PANEL GWEITHREDOL** yn cael ei gynnal **DDYDD LLUN 16 RHAGFYR 2024** yn rhithiol **dros Zoom** am **14:00** o'r gloch.

Yr eiddoch yn gywir,
Gareth Owens
Clerc

---

## AGENDA

1. **Ymddiheuriadau**

2. **Datganiadau o Fuddiannau**

3. **Hysbysiad o Faterion Brys**
   Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol ag Adran 100B (4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972.

4. **Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Medi 2024**

5. **Materion yn Codi**

6. **Pennu Cyllideb 2025-26**

7. **Adroddiad Monitro Perfformiad Ch2 2024-25**

8. **Meincnodi cyflog y Prif Swyddog Tân bob tair blynedd**

9. **Rheoli Risg Strategol**

10. **Materion Brys**
    Ystyried unrhyw eitemau y penderfynodd y Cadeirydd eu bod yn eitemau brys (yn unol ag Adran 100B (4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972) ac y datganwyd eu pwysigrwydd o dan eitem 3 uchod.

### RHAN II

Yn unol ag Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972, argymhellir bod y Wasg a'r Cyhoedd yn cael eu heithrio o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitem fusnes/eitemau busnes a ganlyn oherwydd ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth wedi'i heithrio yn cael ei datgelu iddynt fel sydd wedi'i diffinio ym Mharagraff(au) 12 i 18 Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.

**Dim.**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU
# Y PANEL GWEITHREDOL

Cofnodion **Panel Gweithredol** Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ddydd Llun 16 Medi 2024, yn rhithwir dros Zoom. Dechreuodd y cyfarfod am 14.00 o'r gloch.

| **Cynghorydd** | **Yn Cynrychioli** |
|---|---|
| Y Cyng. Dylan Rees (Cadeirydd) | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Y Cyng. Carol Beard | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Y Cyng. Chrissy Gee | Cyngor Sir y Fflint |
| Y Cyng. Chris Hughes | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Y Cyng. Gareth A Roberts | Cyngor Gwynedd |
| Y Cyng. Rondo Roberts (gadawodd am 14:37) | Cyngor Sir Wrecsam |
| Y Cyng. Paul Rogers (o 14:19) | Cyngor Sir Wrecsam |
| Y Cyng. Gareth Sandilands | Cyngor Sir Ddinbych |
| Y Cyng. Rob Triggs | Cyngor Gwynedd |

**Hefyd yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Dawn Docx | Prif Swyddog Tân |
| Stewart Forshaw | Dirprwy Brif Swyddog Tân |
| Helen MacArthur | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol |
| Justin Evans | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol |
| Dafydd Edwards | Trysorydd |
| Anthony Jones | Rheolwr Ardal |
| Tracey Williams | Pennaeth Cyfathrebu Corfforaethol |
| Gareth Owens | Clerc a Swyddog Monitro |
| George Jones | Atebol - Cyfieithydd |
| Ellie Williams | Cynorthwyydd Gweithredol |

## 1.0 YMDDIHEURIADAU

| **Cynghorydd** | **Yn Cynrychioli** |
|---|---|
| Y Cyng. John Ifan Jones | Cyngor Sir Ynys Môn |

**ABSENNOL**

| **Cynghorydd** | **Yn Cynrychioli** |
|---|---|
| Y Cyng. Paul Cunningham (Dirprwy Gadeirydd) | Cyngor Sir y Fflint |
| Y Cyng. Alan Hughes | Cyngor Sir Ddinbych |
| Y Cyng. Dale Selvester | Cyngor Sir y Fflint |

**2.0 DATGANIADAU O FUDDIANT**

2.1 Nid oedd datganiadau o fuddiant i'w cofnodi.

**3.0 HYSBYSIAD O FATERION BRYS**

3.1 Nid oedd hysbysiad o faterion brys.

**4.0 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD 17 MEHEFIN 2024**

4.1 Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Mehefin 2024 i'w cymeradwyo.

**4.2 PENDERFYNWYD:**

**i) cymeradwyo bod y cofnodion yn gofnod gwir a chywir o'r cyfarfod a gynhaliwyd.**

**5.0 MATERION YN CODI**

5.1 Hysbysodd PST Docx yr Aelodau o adroddiad Archwilio Cymru a gyhoeddwyd ar 10 Medi ac a fydd yn cael ei gyflwyno'n ffurfiol i'r Awdurdod Tân ac Achub ym mis Hydref.

**6.0 OPSIYNAU'R GANOLFAN HYFFORDDI NEWYDD (CYFLWYNIAD)**

6.1 Cyflwynodd PSTC Evans yr opsiynau ar gyfer y Ganolfan Hyfforddi Newydd i'r Aelodau.

6.2 Mae GTAGC yn wynebu heriau sylweddol wrth i risg yn ein cymunedau esblygu. Mae'r angen i addasu ein hyfforddiant i fynd i'r afael â'r heriau hyn yn hanfodol er mwyn cynnal ein dyletswydd i ddiogelu ein diffoddwyr tân a'r cyhoedd. Mae astudiaethau wedi cysylltu gwaith diffodd tân galwedigaethol â rhai canserau, sy'n dangos pa mor bwysig yw'r mater hwn.

6.3 Mae cyflawni allbwn o ansawdd uchel ac effeithlonrwydd gweithredol yn ystod cyfnodau o argyfwng yn gofyn am hyfforddiant o ansawdd uchel.

6.4 Cwblhawyd gwaith hanfodol ar safle Dolgellau y llynedd, fodd bynnag, mae cwynion gan y cyhoedd am y mwg a grëir gan danau wedi eu cynnau yn ystod sesiynau hyfforddi wedi'u huwchgyfeirio i lefel Llywodraeth Cymru. Yn ogystal, mae cyfleusterau newid annigonol ar gyfer diffoddwyr tân benywaidd yn aml wedi golygu bod yn rhaid iddynt ddewis rhwng urddas neu eu hiechyd.

6.5 Mae cynigion ar y gweill i agor cyfleuster hyfforddi canolog yng Ngogledd Cymru sy'n bodloni ein hanghenion craidd. Mae safle wedi'i ddewis a'r pryniant bron iawn wedi'i gwblhau.

6.6 Dywedodd PSTC Evans y bydd cynllun busnes llawn gyda phedwar opsiwn yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod Tân ac Achub ar 21 Hydref i sicrhau bod yr Aelodau yn cael manylion a brîff llawn i bob opsiwn. Bydd y cynllun yn cynnwys rhagolwg cyllideb manwl ar gyfer pob opsiwn.

6.7 Cyfarfu'r Cadeirydd ag Undeb y Brigadau Tân sy'n cymryd rhan yn y broses hon, gan ddatgan na fu'r angen erioed mor angenrheidiol. Codwyd pryderon ynghylch hyfforddiant annigonol yn yr argymhellion yn dilyn yr ymholiad i Grenfell.

6.8 Fe wnaeth y Dirprwy Gadeirydd ddiolch i PSTC Evans am y cyflwyniad a mynegi cefnogaeth o blaid y cynlluniau arfaethedig a'r angen i ddarparu hyfforddiant o ansawdd uchel.

6.9 Mynegodd PSTC Forshaw ei gefnogaeth i'r cynlluniau, y weledigaeth hirdymor a'r angen i ddiffoddwyr tân gael hyfforddiant trochol a realistig. Mae risgiau mewn perthynas â halogyddion ac ïon lithiwm yn parhau i ddod i'r amlwg er nad oes gennym y cyfleusterau i hyfforddi ac mae'r gostyngiad yn y digwyddiadau yr ydym yn mynd atynt yn golygu bod llai o gyfle i ehangu hyfforddiant a phrofiad.

6.10 Soniodd y Cynghorydd Sandilands am yr hinsawdd economaidd heriol yr ydym yn ei hwynebu ar hyn o bryd gan nodi'r angen i'r gwariant fod ar sail tymor byr a thymor hir. Codwyd yr angen i'r penderfyniad gael ei wneud ar sail ariannol gadarn.

6.11 Fe wnaeth PST Docx ddiolch i'r Cynghorydd Sandilands am godi'r mater a dywedodd y bydd hyn yn cael ei ymgorffori yn yr achos busnes fydd yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod Tân ac Achub ar 21 Hydref.

**6.12 PENDERFYNWYD:**

**i) Nodi'r wybodaeth a roddwyd yn ystod y cyflwyniad.**

**7.0 ASESIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL 23-24**

7.1 Cyflwynodd y Rheolwr Ardal Anthony Jones yr Adroddiad Perfformiad ar gyfer y flwyddyn ariannol 2023-24. Hysbyswyd yr Aelodau mai pwrpas yr adroddiad oedd cyflwyno'r APB am y cyfnod 2023/24.

7.2 Mae adran 15 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) (2009) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod drefnu cyhoeddi asesiad perfformiad yr Awdurdod yn ystod y flwyddyn ariannol erbyn 31 Hydref.

7.3 Mae Atodlen 1 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) yn ei gwneud yn ofynnol i bob corff cyhoeddus gyhoeddi adroddiadau blynyddol o'r cynnydd a wnaed o ran cyflawni eu hamcanion llesiant.

7.4 Fe wnaeth y Cadeirydd ddiolch AJ am yr adroddiad manwl a roddodd i'r Aelodau. Gofynnodd y Cadeirydd a oedd unrhyw ddata yn ymwneud â'r adran "Safe-call" ac a oeddem yn gwybod faint o bobl sydd wedi cysylltu â ni.

7.5 Dywedodd AJ y gallwn wneud ymholiadau ynghylch adrodd ar hyn a darparu'r data hwn mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.

**7.6 PENDERFYNWYD:**

- **i) Nododd yr Aelodau gynnwys yr Asesiad Perfformiad Blynyddol am y cyfnod 2023/24.**
- **ii) Cymeradwyodd yr Aelodau Asesiad Perfformiad Blynyddol 2023/24 i'w gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod Tân ac Achub.**

**8.0 ADRODDIAD MONITRO PERFFORMIAD CH1 2024-25**

8.1 Cyflwynodd y Rheolwr Ardal Anthony Jones yr adroddiad Monitro Perfformiad ar gyfer cyfnod Ch.1. Hysbyswyd yr Aelodau mai pwrpas yr adroddiad oedd darparu data cymharol yn ymwneud ag ymgyrch 'Ein 5 Egwyddor ar gyfer cadw cymunedau'n ddiogel' yr Awdurdod Tân ac Achub ar gyfer chwarter cyntaf blwyddyn ariannol 2024/25. Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys sylwadau am weithgarwch, a'r gweithgarwch arfaethedig, sy'n gysylltiedig â'r egwyddorion.

8.2 Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at dueddiadau sy'n dod i'r amlwg o ran galw sydd ar gynnydd, sy'n gostwng neu sy'n newydd. Yn ogystal, mae'r adroddiad yn sail i ddatblygu gweithgarwch newydd neu ddiwygiedig i liniaru unrhyw anghenion neu risgiau sydd ar gynnydd neu sy'n dod i'r amlwg.

8.3 Gofynnodd y Cynghorydd GS a ydym yn cymharu ein cyfraddau absenoldeb a salwch ag Awdurdodau eraill y DU. Mae'n bosibl bod cyfraddau salwch wedi'u heffeithio gan y newidiadau yr ydym wedi'u profi yn ddiweddar.

8.4 Dywedodd AJ fod y cymariaethau a wnaed yn benodol i Gymru yn ystod y cyfnod hwn.

8.5 Roedd cwestiynau pellach ynghylch y mesurau sy'n cael eu cymryd i leihau salwch yn ystod y misoedd nesaf.

8.6 Nodwyd bod ein hystadegau mewn perthynas â heintiau a norofeirws yn cyfateb i ffigurau Cymru gyfan ac y byddwn yn parhau i fonitro hyn yn y chwarteri sydd i ddod wrth ddarparu pecynnau cadarn.

8.7 Soniodd PSTC MacArthur am y dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a ddefnyddir ym mhob achos o salwch. Mae'r dull hwn yn cael ei fonitro gan wahanol grwpiau presenoldeb, cymorth rheoli iechyd galwedigaethol, rhaglen cymorth i weithwyr a chymorth iechyd meddwl pwrpasol. Rydym yn cynnig cyfleoedd dychwelyd i'r gwaith lle bo modd gan gynnwys yr opsiwn i weithio mewn adran wahanol nes bod modd dychwelyd yn llawn i'r gwaith.

8.8 Tynnodd y Cadeirydd sylw at y ffaith fod yr adroddiad hwn yn un newydd i'r Aelodau a ofynnodd am yr wybodaeth hon ac edrychodd ymlaen at weld canlyniadau Ch.2.

**8.9 PENDERFYNWYD:**

**i) Nododd yr Aelodau gynnwys yr adroddiad monitro perfformiad.**

**9.0 MATERION BRYS**

9.1 Nid oedd materion brys i'w hadrodd.

Daeth y cyfarfod i ben am: 14:49.

*Mae'r ddogfen yma ar gael yn Saesneg* **Eitem Agenda 8**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i'r | **Panel Gweithredol** |
| Dyddiad | **16 Rhagfyr 2024** |
| Swyddog Arweiniol | **Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol** |
| Swyddog Cyswllt | **Elgan Roberts, Pennaeth Cyllid a Chaffael** |
| Pwnc | **Pennu Cyllideb 2025-26** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Diben yr adroddiad hwn yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ynghylch yr asesiad cynllunio ariannol sy'n digwydd ar hyn o bryd er mwyn pennu cyllideb gytbwys ar gyfer 2025/26, ac i geisio eu cymeradwyaeth ar gyfer cadarnhau'r ardoll ddangosol gyda'r awdurdodau lleol cyfansoddol.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Mae'n ofynnol i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) ddarparu ffigurau dangosol ar gyfer ardoll ariannol 2025/26 i'r awdurdodau lleol cyfansoddol erbyn 31 Rhagfyr 2024, ac i gadarnhau'r ffigurau terfynol erbyn 15 Chwefror 2025. Er mwyn gwneud hyn, rhaid i'r Awdurdod bennu cyllideb refeniw a chyfalaf ar gyfer 2025/26 yn ei gyfarfod ar 20 Ionawr 2025. Mae'r Gweithgor Craffu ar y Gyllideb wedi craffu ar y broses o gynllunio'r gyllideb, ac mae'r asesiad cynllunio presennol o £52.389m wedi'i gadarnhau.

**ARGYMHELLION**

3 Argymhellir bod yr Aelodau'n:

i) Nodi canfyddiadau'r Gweithgor Craffu ar y Gyllideb, gan gynnwys y rhagdybiaethau cynllunio sy'n cael eu defnyddio i ddatblygu'r gyllideb refeniw ar gyfer 2025/26;
ii) Nodi'r asesiad cynllunio ariannol presennol, sef gofyniad cyllidebol o £52.389m ar gyfer 2025/26;
iii) Nodi'r cynnig i ddefnyddio £0.601m o'r gronfa wrth gefn ar gyfer 2025/26; a
iv) Chymeradwyo cyfathrebu ynghylch yr ardoll ariannol ddrafft o £51.788m gan yr awdurdodau lleol cyfansoddol.

**CEFNDIR**

4 Bob blwyddyn, mae'n rhaid i'r Awdurdod bennu cyllideb refeniw gytbwys sydd â chymeradwyaeth yr Awdurdod llawn. Rhaid rhoi gwybod am yr ardoll ariannol ddangosol i awdurdodau lleol cyfansoddol erbyn 31 Rhagfyr bob blwyddyn, a rhaid cadarnhau'r ardoll derfynol erbyn 15 Chwefror, cyn dechrau'r flwyddyn ariannol. Er mwyn bodloni'r amserlenni hyn, bydd y cyllidebau refeniw a chyfalaf arfaethedig ar gyfer 2025/26 yn cael eu cyflwyno i'r Awdurdod yn eu cyfarfod ar 20 Ionawr 2025.

5 Mae'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus (CIPFA) yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau feddu ar gynlluniau ariannol sy'n dangos sut y bydd gwariant yn cael ei ariannu dros y tymor byr a'r tymor canolig. O ganlyniad, mae cynaliadwyedd ariannol yr Awdurdod yn seiliedig ar wybodaeth a dealltwriaeth o'r ffactorau allweddol sy'n effeithio ar gostau ac ar werthuso risgiau ac ansicrwydd.

6 Yn dilyn ymgynghoriad yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys a gynhaliwyd yn ystod 2023/24 ac yn unol â phenderfyniad yr Awdurdod ym mis Rhagfyr 2023, mae cynlluniau'r gyllideb yn seiliedig ar gynnal y model presennol ar gyfer cyflwyno'r gwasanaethau. Mae'r gwaith ar gynlluniau i wella argaeledd mewn ardaloedd gwledig yn mynd rhagddo ac y tu hwnt i gwmpas y papur hwn sy'n gosod y gyllideb.

7 Cafodd y broses ei goruchwylio gan y Gweithgor Craffu ar y Gyllideb (y Gweithgor), a sefydlwyd i graffu ar y broses o osod cyllidebau, gan gynnwys pob maes incwm a gwariant. Gydag aelodau sy'n cynrychioli pob awdurdod lleol, mae'r Gweithgor wedi cyfarfod ar 5 achlysur rhwng Mehefin a Thachwedd 2024, gyda chyfarfod pellach wedi'i drefnu ar gyfer 12 Rhagfyr.


**GWYBODAETH**

8 Sefydlwyd y Gweithgor gan yr Awdurdod ac mae pob awdurdod lleol cyfansoddol yn cael ei gynrychioli arno. Mae'r Gweithgor wedi ymgynnull ar bum achlysur i adolygu pob agwedd ar wariant Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth). Roedd y cyfarfodydd hyn yn canolbwyntio ar feysydd allweddol, gan gynnwys costau cyflogau uniongyrchol, gwariant nad yw'n ymwneud â chyflogau, ariannu cyfalaf, llog, a threfniadau prydlesu.

9 Gwnaed gwaith cynllunio cyllideb manwl yn unol â'r rhagdybiaethau cynllunio allweddol, y risgiau, a'r amheuon sydd wedi'u nodi yn Atodiad 1.

10 Roedd yr asesiad cynllunio cychwynnol yn nodi y byddai angen cynnydd o fwy na 10% yn y gyllideb ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26. Roedd hyn yn cynnwys pwysau ychwanegol o £1.009m o ran costau yn deillio o'r cynnydd i'r tâl cadw ar gyfer personél y system dyletswydd ar alwad y cytunwyd arno yn genedlaethol. Gwnaed yr asesiad hwn cyn Datganiad yr Hydref ac, felly, nid oedd yn ystyried newidiadau posibl i gyfraniadau yswiriant gwladol cyflogwyr, nad oeddent yn hysbys ar y pryd.

11 Nododd y gwaith cychwynnol o gynllunio'r gyllideb mewn manylder bwysau ychwanegol anochel, ac mae'r Gweithgor bellach wedi mynd i'r afael â'r pwysau hwnnw. Mae'r asesiad drafft terfynol yn gosod gofyniad cyllidebol o £52.389m. Ar ôl defnyddio £0.601m o'r gronfa wrth gefn, £51.788m yw'r gofyniad ardoll ar gyfer 2025/26, sy'n cynrychioli cynnydd gros o 7% yn yr ardoll ar awdurdodau lleol. Nid yw'r cynnydd hwn yn adlewyrchu unrhyw gefnogaeth gan y llywodraeth mewn perthynas â chostau yswiriant gwladol uwch.




12 Mae'r gofyniad ardoll o £51.78m ar gyfer 2025/26 yn cynnwys effaith ariannol y newidiadau i gyfraniadau Yswiriant Gwladol y cyflogwyr, sef cyfanswm o £0.772m. Yn ogystal, mae'r £48.322m a godwyd ar gyfer 2024/25 ardoll yn eithrio'r grant pensiwn SCAPE, ac mae angen addasiad i wneud cymhariaeth tebyg.


13 Mae dadansoddiad drafft o'r gofyniad ardoll o £51.788m ar gyfer pob awdurdod lleol cyfansoddol i'w weld yn Atodiad 2.

14 Mae'r tabl isod yn cadarnhau gostyngiadau o £0.902m ar gyfer costau gweithwyr a chostau eraill nad ydynt yn gyflogau a nodwyd gan waith y Gweithgor rhwng mis Medi a mis Hydref 2024. Fodd bynnag, roedd y gostyngiad net yn £0.386m oherwydd effaith y cynnydd i gyfraddau Yswiriant Gwladol yn dilyn datganiad cyllideb yr Hydref a gwaith mireinio ar yr ariannu cyfalaf.

| £'m | 2024/25 | Medi-24 | Hyd-24 | Tach-24 | Newidiadau drwy Graffu ar y Gyllideb |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gweithwyr** | 34.192 | 36.751 | 36.614 | 36.936 | 0.185 |
| **Cost nad yw'n gyflog** | 12.807 | 13.077 | 12.432 | 11.990 | -1.087 |
| **Incwm** | -0.946 | -1.039 | -1.039 | -1.039 | 0.000 |
| **Cyllid Cyfalaf** | 3.193 | 3.985 | 3.856 | 4.407 | 0.516 |
| **Cyfanswm** | **49.246** | **52.774** | **51.863** | **52.388** | **-0.386** |

15 Mae'r siartiau rhaeadr canlynol yn dangos y newidiadau allweddol rhwng cyllideb 2024/25 a chyllideb arfaethedig 2025/26, gan dynnu sylw at yr addasiadau a'r defnydd o gronfeydd wrth gefn lle bo hynny'n berthnasol ac yn briodol.

16 Mae costau gweithwyr wedi codi o gyllideb cyflogres o £34.192m yng 2024/25 i £36.936m yng nghyllideb cyflogres arfaethedig 2025/26. Mae rhai o'r prif bethau sy'n cyfrannu at y cynnydd hwn yn cynnwys £0.060m ar gyfer dyfarniad cyflog 2024/25 ar gyfer staff y Llyfr Gwyrdd, £1.009m ar gyfer y System Dyletswydd Ar Alwad (RDS) sy'n dod i rym o 1 Ionawr 2025, £0.648m ar gyfer chwyddiant y Llyfr Llwyd ar 3%, £0.202m ar gyfer chwyddiant y Llyfr Gwyrdd ar 3%, a £0.772m yn adlewyrchu effaith y newidiadau i gyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr. Mae'r cynnydd hwn yn cael ei wrthbwyso'n rhannol gan ostyngiad o £0.119m o ganlyniad i addasiadau i swyddi'r system dyletswydd ar alwad (sydd yn lleihau'r rhagdybiaeth o recriwtio 30 o staff ychwanegol i 15). Yn ogystal, dyrennir £0.061m i dalu am swydd incwm cyfatebol, dyrennir £0.045m ar gyfer cyflwyno swydd Uwch Swyddog Cydymffurfio Diogelwch Tân i Fusnesau, a £0.035m ar gyfer rôl Swyddog Caffael.





17 Mae'r dadansoddiad o gostau uniongyrchol y gyflogres, a nodir isod, yn cadarnhau dyraniad o £36.936m ar gyfer gweithwyr mewn swyddi sy'n cyflwyno gwasanaethau. Mae'r gwaith o gynllunio'r gyllideb yn cynnwys darpariaethau i gefnogi twf parhaus y System Dyletswydd Ar Alwad (RDS), er hynny, gyda rhagdybiaeth o recriwtio yn ychwanegol wedi'i leihau i 15, gan sicrhau bod gallu a chydnerthedd yr ymateb gweithredol yn cael eu cynnal.


| **Dadansoddiad o Gostau Cyflogau Uniongyrchol** | **2025/26<br>£'m** |
|---|---|
| Darparu Gwasanaethau Ymateb | 31.267 |
| Darparu Gwasanaethau Amddiffyn ac Atal | 2.712 |
| Gwasanaethau Corfforaethol | 2.957 |
| **Gofynion y Gyllideb Staffio** | **36.936** |

18 Rhagwelir y bydd costau nad ydynt yn ymwneud â chyflogau yn gostwng o £12.807m yn 2024/25 i lefel sylfaenol ddiwygiedig o £11.990m ar gyfer 2025/26. Mae'r gostyngiad hwn yn cael ei yrru gan £0.563m mewn arbedion cyfleustodau, £0.497m o gael gwared ar wariant untro Tech Ops, £0.489m o ostyngiadau disgwyliedig yng nghostau Firelink, a £0.076m oherwydd bod gwariant a ariennir gan grant wedi dod i ben.


19 Mae'r gostyngiadau hyn yn cael eu gwrthbwyso'n rhannol gan gynnydd o £0.336m ar gyfer yr Ystafell Reoli, £0.200m yr un ar gyfer y Fflyd a TGCh, a £0.055m ar gyfer costau adrannol eraill. Cynigir bod costau untro, gan gynnwys £0.382m ar gyfer gwelliannau i'r system a £0.125m ar gyfer mesuryddion llif, yn cael eu hariannu o'r gronfa wrth gefn, gan arwain at gyllideb arfaethedig derfynol o £11.955m ar gyfer y gyllideb nad yw'n ymwneud â chyflogau.




20 Rhagwelir y bydd incwm yn cynyddu o £0.946m yng nghyllideb 2024/25 i £1.039m, wedi'i yrru gan refeniw uwch o Gytundebau Lefel Gwasanaeth ac incwm ychwanegol a ragwelir yn sgil cyflwyno prentisiaeth mewn partneriaeth â Choleg Cambria.



21 Rhagwelir y bydd costau ariannu cyfalaf yn cynyddu o £3.189m yn 2024/25 i £4.407m yn 2025/26, yn bennaf oherwydd bod cyfraddau llog yn cynyddu. Mae’r ffactorau allweddol yn cynnwys £0.135m mewn costau llog ail-ariannu, £0.197m ar gyfer benthyca sy’n gysylltiedig â phrosiectau cyfalaf, £0.094m ar gyfer prydlesi, a £0.253m ar gyfer y Ddarpariaeth Isafswm Refeniw. Mae costau benthyca ychwanegol ar gyfer prosiectau cyfalaf newydd a chyfleusterau hyfforddi yn cyfrannu £0.652m a £0.054m, yn y drefn honno. Mae'r cynnydd hwn yn cael ei wrthbwyso'n rhannol gan ostyngiad o £0.074m yng nghostau'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) a defnyddio £0.094m o’r gronfa wrth gefn, gan arwain at y gyllideb arfaethedig o £4.407m.




## GWAITH PELLACH

22 Bydd achosion busnes ar gyfer ariannu cyfalaf yn destun craffu mewnol pellach i sicrhau eu bod yn cyd-fynd ag amcanion strategol y sefydliad, yn lliniaru risgiau’n effeithiol, ac yn cydymffurfio ag egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol 2015. Bydd y broses hon yn rhoi sicrwydd bod buddsoddiadau arfaethedig yn cyfrannu at gynaliadwyedd hirdymor, yn sicrhau gwerth am arian, ac yn cefnogi nodau ehangach llesiant economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol.

23 Bydd yr asesiad cynllunio ariannol drafft yn cael ei fireinio ymhellach, a bydd yn cael ei ddiweddaru yn yr asesiad terfynol sydd i’w gyflwyno i’r Awdurdod yn ei gyfarfod ar 20 Ionawr 2025.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'r adroddiad hwn yn gysylltiedig ag amcanion Gwella a Llesiant yr Awdurdod. Mae'n adrodd ar hyfywedd ariannol yr Awdurdod. |
| Cyllideb | Mae'r asesiad cynllunio cychwynnol wedi nodi gofyniad cyllideb o £52.8m. |
| Cyfreithiol | Mae gan yr Awdurdod ddyletswydd gyfreithiol i osod cyllideb gytbwys sy'n seiliedig ar ragdybiaethau cynllunio realistig. |
| Staffio | Mae 70% o'r gwariant yn ymwneud â chostau staff ac felly mae'n ffactor hanfodol wrth ystyried sefydlogrwydd ariannol yn y dyfodol. Mae'r risgiau a nododd y Prif Swyddog Tân yn cynnwys y trafodaethau cyflog sy'n parhau yn ogystal â'r angen i recriwtio mwy o staff dyletswydd ar alwad a gwella cydnerthedd corfforaethol. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Bydd y materion hyn yn cael ystyriaeth o fewn y cynigion ar gyfer pennu'r gyllideb. |
| Risgiau | Mae'r risgiau a'r ansicrwydd allweddol i gyllideb 2025/26 wedi'u hamlinellu yn Atodiad 1. |

**Atodiad 1**
**Crynodeb o ragdybiaethau a risgiau cynllunio**

| **Pennawd** | **Rhagdybiaethau cynllunio sy'n cael eu defnyddio wrth bennu'r gyllideb** | **Risgiau/Ansicrwydd** |
|---|---|---|
| Costau gweithwyr | • Bydd y cyllidebau staffio yn cael eu llunio ar fodelau cyflwyno'r gwasanaethau presennol a byddant yn adlewyrchu'r penderfyniad ynghylch canlyniad yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys gan yr Awdurdod Tân ac Achub ym mis Rhagfyr 2023.<br>• Mae gwariant y System Dyletswydd ar Alwad (RDS) wedi'i seilio ar gyfrif pennau 2023/24. Byddai cyllidebu ar gyfer y staffio llawn gofynnol yn arwain at gost ychwanegol o tua £3 miliwn.<br>• Mae'r asesiad cynllunio ar gyfer y dyfarniadau cyflog ar gyfer 2025/26 yn gynnydd o 3% ar gyfer pob grŵp staff.<br>• Roedd setliad diffoddwyr tân 2024/25 yn cynnwys codiad o tua 50% yn y tâl cadw a delir i ddiffoddwyr tân ar y systemau dyletswydd ar alwad a chriwio dydd. Amcangyfrifir mai effaith y cynnydd hwn yw £1m y flwyddyn.<br>• Yn ystod 2023/24 adolygodd Llywodraeth Cymru y llif arian mewn perthynas â chymorth ariannol ar gyfer y cynnydd i gyfraniadau'r cyflogwr sy'n gysylltiedig â chynllun pensiwn y diffoddwyr tân. Yn dilyn prisiadau actiwaraidd 2016 darparwyd £1.1m o gymorth i'r Awdurdod yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru (a elwir yn gyllid SCAPE). Ers 2023/24 mae hyn wedi'i gynnwys o fewn y cyllid i'r awdurdodau lleol cyfansoddol. Ar adeg ysgrifennu hwn, nid yw'r cymorth ariannol ar gyfer y cynnydd sy'n deillio o brisiad 2020 wedi'i gadarnhau eto. At ddiben pennu'r gyllideb mae'r holl gostau wedi'u cynnwys o fewn y gwariant sydd i'w gwmpasu gan yr ardoll. | • Nid yw'r Cyd-gyngor Cenedlaethol (NJC) wedi dod i gytundeb eto ar ddyfarniad cyflog y diffoddwyr tân ar gyfer 2025/26.<br>• Nid yw'r Cyd-gyngor Cenedlaethol (NJC) ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol wedi dod i gytundeb eto ar y dyfarniad cyflog i staff ar gontractau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS) ar gyfer 2025/26.<br>• Mae'r gwaith o gynllunio'r gyllideb yn tybio y bydd lefelau arferol o weithgarwch. Os bydd llif mawr o alwadau yn digwydd byddwn yn teimlo pwysau cyllidebol. Y dybiaeth rydym yn gweithio arni yw y byddai'r Gronfa Gyffredinol yn cael ei defnyddio yn y lle cyntaf. |

| Pennawd | Rhagdybiaethau cynllunio sy'n cael eu defnyddio wrth bennu'r gyllideb | Risgiau/Ansicrwydd |
|---|---|---|
| Costau nad ydynt yn gyflogau | • Mae'r asesiad cynllunio cychwynnol wedi cadarnhau y bydd y cyllidebau ar gyfer costau nad ydynt yn gyflogau'n cael eu llunio gan ddefnyddio'r modelau cyflwyno gwasanaethau presennol.<br>• Mae'r gofynion ar y gyllideb nad yw'n ymwneud â chyflogau wedi cynyddu hyd yn oed yn fwy oherwydd yr effaith chwyddiant sy'n gynhenid o fewn contractau presennol ac yn y dyfodol, yn ogystal â materion yn ymwneud â'r gadwyn gyflenwi mewn nifer o feysydd hanfodol i fusnes. Mae'r rhain yn cynnwys cyflenwi cit diffodd tân a dod o hyd i rannau newydd ar gyfer cerbydau'r ochr weithredol.<br>• Mae costau na ellir eu hosgoi sy'n gysylltiedig â materion iechyd a diogelwch penodol i'r diwydiant wedi'u cynnwys o fewn y gyllideb nad yw'n gyflogau. Mae'r rhain yn cynnwys costau sy'n gysylltiedig â hyfforddi diffoddwyr tân gweithredol a rheoli halogyddion.<br>• Mae cyllidebau wedi'u llunio gan bob Pennaeth Adran perthnasol yn seiliedig ar eu gwybodaeth a'u barn broffesiynol am y gwariant sy'n angenrheidiol i gyflawni ein hamcanion corfforaethol. Mae hyn yn cynnwys adolygiad o rwymedigaethau cytundebol sylfaenol ac amcangyfrifon o weithgarwch. Mae ceisiadau newydd am gyllid dros £10,000 yn ddarostyngedig i achos busnes y bydd craffu arno. | • Er bod y Gwasanaeth yn parhau i adolygu costau nad ydynt yn gyflogau ac yn ymdrechu i reoli pwysau o ran costau o fewn y gyllideb arfaethedig, mae hyn yn parhau i fod yn faes risg ac ansicrwydd. Yn benodol, nodwyd bod oedi wrth ddarparu nwyddau neu wasanaethau wedi effeithio ar broffiliau amser gwariant.<br>• Er bod chwyddiant costau yn gyffredinol yn haws ei reoli nag yn ystod y blynyddoedd diwethaf, nodir bod rhai meysydd o bryder yn parhau. Mae hyn yn cynnwys cynnydd mewn trwyddedau ar gyfer meddalwedd gan gynnwys systemau sy'n bwysig i'r busnes.<br>• Rydym wedi gwybod bod cost nwy a thrydan yn achosi pwysau ers 2022/23 o ganlyniad i'r pwysau byd-eang ar gostau. Mae'n ymddangos bod y sefyllfa wedi sefydlogi ac mae'r gyllideb ar gyfer 2025/26 yn seiliedig ar yr amcangyfrifon gorau ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae anwadalrwydd yn y farchnad yn parhau a chaiff hyn ei reoli'n ofalus drwy gydol y flwyddyn ariannol.<br>• Yn ystod 2023/24, fe wnaeth Llywodraeth Cymru ddileu ei chefnogaeth ariannol o £0.4m ar gyfer rhwydwaith cyfathrebu cenedlaethol presennol y gwasanaethau brys (Firelink). Mae pris llawn y contract bellach yn cael ei ariannu'n uniongyrchol o gyllid craidd. Oherwydd natur sefydlog y contract hwn, ni ellir osgoi'r costau hyn ac mae'r contract yn cynnwys cynnydd blynyddol yn sgil chwyddiant. Mae'r gost ar gyfer blwyddyn lawn yn £1m er y gallai hyn ostwng i £0.5m yn dilyn her gyfreithiol genedlaethol. Mae'r her gyfreithiol genedlaethol yn destun apêl ac rydym yn parhau i fod yn ansicr beth fydd y canlyniad terfynol. Fodd bynnag, mae'r gostyngiad yn y gost wedi'i gynnwys fel rhan o'r gwaith o bennu'r gyllideb. |

| Pennawd | Rhagdybiaethau cynllunio sy'n cael eu defnyddio wrth bennu'r gyllideb | Risgiau/Ansicrwydd |
|---|---|---|
| Ariannu Cyfalaf | • Mae'r gofynion ariannu cyfalaf ar gyfer 2025/26 yn cynnwys y tâl refeniw ar gyfer yr isafswm darpariaeth refeniw ar gyfer yr asedau presennol ac amcangyfrif o'r taliadau llog sy'n deillio o fenthyca. Effeithir ar y costau hyn yn sgil gwariant cyfalaf hanesyddol, yr angen i fenthyg ar gyfer rhaglen gyfalaf 2025/26 ac effaith y cynnydd mewn cyfraddau llog wrth ailariannu benthyciadau sy'n aeddfedu.<br>• Bydd yr asesiad cynllunio cychwynnol yn rhagdybio y bydd yr holl fenthyca yn y dyfodol ar gyfradd gyffredinol y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) ar adeg pennu'r gyllideb, a amcangyfrifir ar hyn o bryd yn 4.5%. Mae'r Awdurdod yn derbyn cyngor ac arweiniad annibynnol ar y mater hwn gan Arlingclose, cwmni cynghori arbenigol.<br>• Mae'r cynllun cyfalaf yn cynnwys costau posibl sy'n gysylltiedig ag achosion busnes a gyflwynir gan bob Pennaeth Adran. Mae hyn yn cynnwys rhywfaint o ddarpariaeth ar gyfer costau cychwynnol sy'n gysylltiedig â Phrosiect y Ganolfan Hyfforddi i alluogi datblygu achos busnes manwl a model ariannu. | • Mae'r cynnydd mewn cyfraddau llog yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn faes risg allweddol ac mae'n gwaethygu oherwydd bod angen ailariannu nifer o fenthyciadau yn ystod blwyddyn ariannol 2025/26. Bydd modelu ariannol yn cael ei wneud i asesu pa mor fforddiadwy yw'r holl gynlluniau yn ystod y broses o bennu'r gyllideb.<br>• Nid yw amseriad unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â chanolfan hyfforddi newydd yn hysbys ar hyn o bryd gan nad yw'r achos busnes wedi'i ystyried gan yr Awdurdod. Er na ragwelir na fydd yr achos busnes terfynol a'r opsiynau ariannu yn cael eu cyflwyno i'w cymeradwyo tan 2027 bydd darpariaeth ar gyfer costau sy'n gysylltiedig â cheisiadau cynllunio manwl yn cael ei chynnwys yn amcangyfrifon cychwynnol y gyllideb. |
| Incwm | • Mae cyllidebau incwm wedi'u hadolygu a'u pennu yn unol â blynyddoedd blaenorol, yn amodol ar gynnydd mewn chwyddiant. Mae'r rhain yn ymwneud yn bennaf ag incwm o eiddo lle mae ein safleoedd yn cael eu defnyddio ar y cyd.<br>• Bu gostyngiad sylweddol yn incwm grant Llywodraeth Cymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf a bydd y broses o bennu'r gyllideb yn rhagdybio y bydd gweddill y cyllid grant gan Lywodraeth Cymru yn cael ei dderbyn ar lefelau 2024/25. | • Nid oes unrhyw risgiau penodol wedi'u nodi yn ychwanegol at yr incwm grant gan Lywodraeth Cymru, ac ni ragwelir codiadau chwyddiant ar ei gyfer. |

**Atodiad 2**

**Ardoll ariannol ddrafft yn ôl awdurdod lleol**

| Awdurdod | Cyfraniad 2024/2025<br>£ | Poblogaeth | Dosraniad<br>% | Gofynion y Gyllideb (Ardoll) 2025/2026<br>£ | Cynnydd i'r Ardoll<br>£ | Cynnydd i'r Ardoll<br>% |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyngor Sir Ynys Môn | 4,848,293 | 69,291 | 10.02% | 5,190,383 | 342,090 | 7.06% |
| Cyngor Gwynedd | 8,256,681 | 119,173 | 17.24% | 8,926,896 | 670,214 | 8.12% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | 8,024,901 | 114,410 | 16.55% | 8,570,114 | 545,213 | 6.79% |
| Cyngor Sir Ddinbych | 6,779,844 | 97,156 | 14.05% | 7,277,668 | 497,824 | 7.34% |
| Cyngor Sir y Fflint | 10,905,762 | 155,182 | 22.45% | 11,624,223 | 718,461 | 6.59% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | 9,506,724 | 136,149 | 19.69% | 10,198,518 | 691,794 | 7.28% |
| **Cyfanswm** | **48,322,205** | **691,361** | **100%** | **51,787,801** | **3,465,596** | **7.17%** |

This document is available in English

**Eitem Agenda 7**

| | |
|---|---|
| Adrodd i'r | **Panel Gweithredol** |
| Dyddiad | **16 Rhagfyr 2024** |
| Swyddog Arweiniol | **Stewart Forshaw, Dirprwy Brif Swyddog Tân** |
| Swyddog Cyswllt | **Anthony Jones, Pennaeth Cynllunio, Perfformiad a Thrawsnewid** |
| Pwnc | **Adroddiad Monitro Perfformiad Ch2 2024-25** |

**Pwrpas yr Adroddiad**

1 Darparu data cymharol sy'n ymwneud ag ymgyrch 'Ein 5 Egwyddor ar gyfer cadw cymunedau'n ddiogel' Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) ar gyfer hanner cyntaf blwyddyn ariannol 2024/25. Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys sylwadau ar weithgarwch, a gweithgarwch arfaethedig, sy'n gysylltiedig â'r egwyddorion.

2 Tynnu sylw at dueddiadau sy'n dod i'r amlwg o ran galw sydd ar gynnydd, sy'n gostwng neu sy'n newydd.

3 I fod yn sail i ddatblygu gweithgarwch newydd neu ddiwygiedig i liniaru unrhyw anghenion neu risgiau sydd ar gynnydd neu sy'n ymddangos o'r newydd.

**Crynodeb**

4 Gostyngodd nifer y tanau yn sylweddol o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd (1,016 i 844), fodd bynnag, cynyddodd nifer y galwadau diangen fymryn (1,517 i 1,625).

5 Mae Tanau Damweiniol yn y Cartref yn parhau ar eu lefel isaf o'i gymharu â data'r pum mlynedd diwethaf (138).

6 Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth) wedi cwblhau nifer sylweddol uchel o Archwiliadau Diogel ac Iach yn ystod dau chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol (10,093).

7 Mae galwadau systemau larwm awtomatig ysbytai yn parhau i leihau, ond mae nifer y galwadau i Garchar EF y Berwyn wedi cynyddu.

**Argymhelliad**

8 Argymhellir bod yr Aelodau'n:

i) nodi cynnwys yr adroddiad monitro perfformiad.

**Gwybodaeth**

ii) Mae pwnc newydd wedi'i ychwanegu at yr adroddiad y chwarter hwn ynghylch Technolegau Datblygol. Bydd hyn yn rhan o'r adran 'Ein Hegwyddor Ymateb' a bydd yn rhan barhaol o'r adroddiad o nawr ymlaen.

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Maent yn helpu'r Awdurdod i fonitro ei berfformiad mewn perthynas â'r amcanion gwella a llesiant sydd yng Nghynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol 2024-25. |
| Cyllideb | Dim goblygiadau cyllidebol uniongyrchol. Fodd bynnag, mae adrodd yn caniatáu i'r Awdurdod ystyried unrhyw effeithiau posibl ar y gyllideb yn sgil digwyddiadau annisgwyl. |
| Cyfreithiol | Yn cefnogi'r Awdurdod, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, i ddangos sut y mae'n cymryd pob cam rhesymol, wrth arfer ei swyddogaethau, i fodloni ei amcanion llesiant. |
| Staffio | Dim goblygiadau staffio. Fodd bynnag, bydd cysoni adrodd â Chynllun Rheoli Risg Cymunedol yr Awdurdod yn fwy effeithlon. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Ni chanfuwyd unrhyw oblygiadau. |
| Risgiau | Dim goblygiadau risg |

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

# Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru

Adroddiad Monitro:  Ebrill 2024 – Medi 2024

Our five principles for keeping communities safe

PEOPLE PREVENTION PROTECTION RESPONSE ENVIRONMENT

## Cynnwys

**Ein Hegwyddor Pobl** ........ **2**
1 Absenoldeb Salwch ........ 2
1.1 Pob Absenoldeb Salwch ........ 2
1.2 Salwch Tymor Byr ........ 3
1.3 Salwch Hirdymor ........ 4
**Ein Hegwyddor Atal** ........ **6**
2 Yr Holl Ddigwyddiadau ........ 6
3 Tanau, yn ôl Categori a Chymhelliant ........ 7
4 Tanau Damweiniol yn y Cartref (TDC) ........ 9
5 Prif achos tanau damweiniol yn y cartref ........ 10
6 Marwolaethau ac Anafiadau o Danau Damweiniol yn y Cartref ........ 11
7 Larymau Mwg – Tanau Damweiniol yn y Cartref ........ 12
8 Galwadau Gwasanaeth Arbennig (GGA) ........ 14
9 Archwiliadau Diogel ac Iach ........ 16
**Ein Hegwyddor Diogelu** ........ **18**
10 Galwadau Diangen ........ 18
11 Galwadau Larwm Tân Awtomatig Masnachol ........ 19
12 Galwadau Larwm Tân Awtomatig Ysbytai ........ 19
13 CEF Berwyn ........ 20
**Ein Hegwyddor Ymateb** ........ **21**
14 Argaeledd Gorsaf System dyletswydd ar alwad ........ 21
15 Argaeledd 18 Pwmp wedi'i Gynllunio ........ 21
16 Technolegau Datblygol ........ 22
**Ein Hegwyddor Amgylcheddol** ........ **23**
17 Tanau glaswelltir, coetir a chnydau ........ 23
18 Tanau gwyllt ........ 23
19 Llifogydd ........ 24
**Geirfa** ........ **25**

# Ein Hegwyddor Pobl

## 1 Absenoldeb Salwch

Yn ôl Adroddiad Absenoldeb Salwch y Gwasanaeth Tân ac Achub Cenedlaethol ar gyfer Ebrill 2023 - Medi 2023, y cyfartaledd yw 4.43 diwrnod dyletswydd o absenoldeb salwch i bob aelod o staff, sy'n cyfateb i 5.82%. Mae cyfanswm yr amser a gollwyd, i GTAGC, oherwydd absenoldeb salwch wedi cynyddu i 6.15% yn ystod chwarter dau.

Roedd 925 o swyddi wedi'u dal gan 876 o bobl yn ystod chwarter dau, sy'n gynnydd o 16 o swyddi ers yr un cyfnod yn 2023.

Sylwer, drwy gydol yr adroddiad, ni fydd nifer yr achosion yn y flwyddyn hyd yma yn gyfanswm o'r chwarteri gan y bydd absenoldebau rhai unigolion yn ymestyn ar draws chwarteri. Gall fod amrywiadau hefyd yn y niferoedd a adroddir o chwarter i chwarter o ganlyniad i newidiadau i ddata gweithwyr.

### 1.1 Pob Absenoldeb Salwch

| | Blwyddyn 2023/2024 | | | Blwyddyn 2024/2025 | | | Amrywiant Cyfradd Absenoldeb |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Achosion Ch.2 | Diwrnodau Ch.2 a gollwyd | Amser Ch.2 a gollwyd % | Achosion Ch.2 | Diwrnodau Ch.2 a gollwyd | Amser Ch.2 a gollwyd % | |
| **Salwch Hirdymor** | 66 | 3,482 | 4.21% | 79 | 4,318 | 5.13% | ↑ 0.92% |
| **Salwch Tymor Byr** | 123 | 769 | 0.93% | 135 | 861 | 1.02% | ↑ 0.09% |
| **Cyfanswm** | **189** | **4,251** | **5.14%** | **214** | **5,179** | **6.15%** | **↑ 1.01%** |

Yn ystod chwarter dau, mae nifer y diwrnodau o absenoldeb tymor byr wedi cynyddu, er bod nifer yr achosion wedi aros yr un faint â chwarter un 2024/25. Roedd absenoldeb tymor byr yn gyfrif am 1.02% o'r amser a gollwyd ar draws pob math o ddyletswydd, cynnydd o 0.09% ers yr un cyfnod yn y flwyddyn flaenorol. Mae nifer yr achosion o salwch hirdymor wedi cynyddu hefyd o'i gymharu â'r un cyfnod y flwyddyn flaenorol, gydag absenoldeb hirdymor bellach yn cyfrif am 5.13% o'r amser a gollwyd.

Mae **tymor byr** yn golygu cyfnodau unigol o salwch o 27 diwrnod calendr neu lai. Mae **hirdymor** yn golygu cyfnodau unigol o 28 diwrnod calendr neu fwy.

Efallai y bydd rhai systemau dyletswydd yn gweld canran uwch o amser wedi ei golli er bod llai o achosion o absenoldeb yn cael eu cofnodi. Y rheswm am hyn yw bod llai o staff o fewn y system ddyletswydd honno. Mae'r cyfrifiad o ganran absenoldeb salwch yn gymesur â nifer y staff o fewn y system ddyletswydd honno.

### 1.2 Salwch Tymor Byr

Mae Salwch Tymor Byr yn cyfateb i 1.02% o’r amser a gollwyd yn ystod chwarter dau.

| | 2023/24 – Achosion Ch.2 | 2023/24 – Diwrnodau a gollwyd Ch.2 | 2023/24 – Amser a gollwyd % Ch.2 | 2024/25 – Achosion Ch.2 | 2024/25 – Diwrnodau a gollwyd Ch.2 | 2024/25 – Amser a gollwyd % Ch.2 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Amser Cyflawn* | 39 | 263 | 1.05% | 50 | 354 | 1.42% |
| System Dyletswydd Ar Alwad / Ar Alwad | 57 | 346 | 0.81% | 65 | 409 | 0.94% |
| Yr Ystafell Reoli | 9 | 36 | 1.47% | 4 | 18 | 0.68% |
| Adrannau Corfforaethol | 18 | 124 | 0.99% | 16 | 80 | 0.62% |
| **Cyfanswm** | **123** | **769** | **0.93%** | **135** | **861** | **1.02%** |

(*Amser cyflawn - mae’n cynnwys yr holl staff gweithredol, megis swyddogion mewn gorsafoedd, swyddogion gwledig a swyddogion dyletswydd hyblyg)

(Mae Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth wedi ei rannu fel bod aelodau gweithredol y Tîm Arweinyddol yn cael eu cynnwys o fewn ffigurau amser cyflawn a Phenaethiaid Adrannau wedi'u cynnwys o fewn ffigurau’r Adrannau Corfforaethol).

**Y 3 Prif Reswm dros Absenoldeb Salwch Tymor Byr (Achosion)**

| | **Rheswm Dros Absenoldeb** | **Achosion** | **Amser a gollwyd %** |
|---|---|---|---|
| 1 | Annwyd, Ffliw | 26 | 10.9% |
| 2 | Iechyd Meddwl – Straen | 9 | 15.3% |
| 3 | Cyhyrysgerbydol - aelodau ucha’r corff | 9 | 10.7% |

*Mae amser a gollwyd yn seiliedig ar y diwrnodau a gollwyd yn hytrach na nifer yr achosion*

Mae'r rhesymau dros absenoldeb uchod ar draws pob math o ddyletswydd.

Roedd y nifer uchaf o achosion o absenoldeb tymor byr oherwydd rhesymau 'annwyd/ffliw', ond roedd absenoldeb tymor byr oherwydd 'iechyd meddwl – straen' yn cyfrif am y nifer uchaf o ddiwrnodau a gollwyd yn ystod chwarter dau.

Er nad oedd yn un o’r tri phrif reswm dros absenoldeb, roedd nifer y gweithwyr a oedd yn absennol oherwydd 'chwydu a dolur rhydd' ar gyfradd uwch na'r hyn am yr un cyfnod yn 2023/24. Nodwyd hefyd o fewn data dadansoddi'r GIG bod cyfanswm canlyniadau norofeirws y labordy wedi parhau ar gyfradd uwch na'r cyfartaledd ym mis Gorffennaf ac Awst, gyda mis Medi bellach yn dechrau dangos gostyngiad.

### 1.3 Salwch Hirdymor

Mae salwch hirdymor yn cyfateb i gyfartaledd o 5.13% o'r amser a gollwyd yn ystod chwarter dau.

| Salwch Hirdymor | 2023/24 – Achosion Ch.2 | 2023/24 – Diwrnodau a gollwyd Ch.2 | 2023/24 – Amser a gollwyd % Ch.2 | 2024/25 – Achosion Ch.2 | 2024/25 – Diwrnodau a gollwyd Ch.2 | 2024/25 – Amser a gollwyd % Ch.2 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gorsafoedd system dyletswydd amser cyflawn | 16 | 751 | 2.99% | 23 | 1,113 | 4.46% |
| System Dyletswydd Ar Alwad / Ar Alwad | 35 | 2,078 | 4.87% | 40 | 2,447 | 5.60% |
| Yr Ystafell Reoli | 3 | 188 | 7.65% | 4 | 214 | 8.11% |
| Adrannau Corfforaethol | 12 | 465 | 3.73% | 12 | 544 | 4.21% |
| **Cyfanswm** | **66** | **3,482** | **4.21%** | **79** | **4,318** | **5.13%** |

**Y 3 Prif Reswm dros Absenoldeb Salwch Hirdymor (Achosion)**

| | Rheswm Dros Absenoldeb | Achosion | Amser a gollwyd % |
|---|---|---|---|
| 1 | Cyhyrysgerbydol - aelodau gwaelod y corff | 14 | 20.4% |
| 2 | Iechyd Meddwl – Straen | 12 | 11.7% |
| 3 | Methu Archwiliad Meddygol / Prawf Ffitrwydd | 6 | 10.2% |

*Mae amser a gollwyd yn seiliedig ar y diwrnodau a gollwyd yn hytrach na nifer yr achosion*

**Cyhyrysgerbydol** - Roedd absenoldeb oherwydd problemau aelodau gwaelod y corff wedi cyfrif am y nifer uchaf o achosion a diwrnodau a gollwyd am absenoldeb hirdymor. Oherwydd natur gorfforol rolau gweithredol, rhaid bod gweithwyr sy'n absennol oherwydd cyflyrau cyhyrysgerbydol wedi gwella'n llawn cyn dychwelyd i'r gwaith er mwyn osgoi ei waethygu neu anaf pellach.

**Absenoldeb hirdymor oherwydd iechyd meddwl** - mae straen yn parhau i fod yn un o'r tri phrif reswm dros absenoldeb hirdymor, ar gyfer chwarter un a chwarter dau yn y flwyddyn bresennol. Wrth i'r gwasanaeth weld cynnydd mewn achosion o iechyd meddwl, mae hyn yn adlewyrchu'r sefyllfa ledled y wlad, fel y mae'r GIG yn adrodd yn ei fwletin ystadegau misol. Mae nifer yr oedolion sydd wedi gwneud defnydd o gymorth iechyd meddwl wedi cynyddu o 1.1 miliwn ym mis Gorffennaf 2023 i 1.4 miliwn ym mis Gorffennaf 2024.

Darperir cymorth i weithwyr sy'n absennol oherwydd rhesymau iechyd meddwl a chyhyrysgerbydol, gan gynnwys mynediad at iechyd galwedigaethol, rhaglen cymorth i weithwyr, a thriniaeth ffisiotherapi. Hefyd, darperir i weithwyr cyfeirio at asiantaethau allanol, megis Elusen y Diffoddwyr Tân, Parabl, a gwasanaethau penodol eraill.

**Cymhariaeth Cymru Gyfan**

O'i gymharu â Gwasanaethau Tân ac Achub eraill Cymru, Gogledd Cymru oedd â'r ganran isaf o amser wedi ei golli oherwydd absenoldeb tymor byr o'r tri gwasanaeth. Gogledd Cymru oedd â'r gyfradd isaf o amser wedi ei golli oherwydd absenoldeb hirdymor ar gyfer staff yr Ystafell Reoli ond roedd ychydig yn uwch na Chanolbarth a Gorllewin Cymru ar gyfer staff lifrai amser cyflawn ac roedd ar y lefel gyfartalog ar gyfer staff anweithredol, gyda 7.54% o amser yn cael ei golli.

Sylwer, bod data Cymru Gyfan ond wedi adrodd ar absenoldeb staff amser cyflawn, staff ystafell reoli a staff corfforaethol ar gyfer y cyfnod Ebrill 2022 i Fawrth 2023 a disgwylir y diweddariad nesaf ym mis Hydref 2024. (nid oedd yr wybodaeth hon ar gael eto adeg paratoi'r adroddiad hwn).

# Ein Hegwyddor Atal


## 2 Yr Holl Ddigwyddiadau

**Yr Holl Ddigwyddiadau** – aethpwyd at **3,122** o ddigwyddiadau yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn ariannol, sy'n ostyngiad o 2.4% o'i gymharu â dau chwarter cyntaf blwyddyn ariannol 2023/24, a 0.3% yn is na'r cyfartaledd 3 blynedd sef 3,131.

**Tanau** – **844**, 24.8% yn llai na chyfartaledd tair blynedd Ch.2 sef 1,123.


**Galwadau Diangen** – **1,625**, 14.1% yn fwy na chyfartaledd tair blynedd Ch.2 sef 1,424.

**Galwadau Gwasanaeth Arbennig – 653**, 11.8% yn uwch na chyfartaledd tair blynedd Ch.2, sef 584.



## 3 Tanau, yn ôl Categori a Chymhelliant

Aethpwyd at **844** o danau; gostyngiad o 16.9% o'r 1,016 yr aethpwyd atynt yn ystod Ch.2 y flwyddyn ariannol 2023/24.




**Prif Danau**


- **Damweiniol: 332** (79.4%).
- **Bwriadol: 86** (20.6%).

**Tanau Eilaidd**

- **Damweiniol: 209** (52.6%).
- **Bwriadol: 188** (47.4%).

**Tanau simnai**

- **29** (3.4% o'r holl danau yr aethpwyd atynt) - mae hyn yn gynnydd o 70.6% o 17 o'i gymharu â'r un cyfnod y




### Mwy o wybodaeth ar Danau Eilaidd Bwriadol

Er ei bod yn amlwg bod y gwahaniaeth rhwng canran y tanau eilaidd bwriadol yr aeth y Gwasanaeth atynt a chanran y tanau eilaidd damweiniol yn uwch o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd, mae'n bwysig nodi, serch hynny, bod nifer y tanau eilaidd bwriadol wedi gostwng, a'u bod wedi cynnwys yn yr un categorïau eiddo ag yr oeddent mewn blynyddoedd ariannol blaenorol ('Glaswelltir, coetir a chnydau', 'Arall yn yr awyr agored (gan gynnwys tir'), a 'Strwythurau awyr agored').

**Camau gweithredu a gymerwyd hyd yma:**

- Cynhaliwyd ymchwiliad yn ystod Ch.2 i'r cynnydd parhaus mewn mynd at alwadau systemau larwm awtomatig mewn cartrefi.

  Rhagwelwyd ers tro, wrth i ni weld cymdeithas sy'n heneiddio, y bydd cynnydd anochel yn nifer y meddianwyr sydd â systemau wedi'u monitro. Cadarnhawyd hyn gan un o'r prif gwmnïau sy'n gwasanaethu rhanbarth Orllewin a Chanolog y Gwasanaeth.

  Roedd y cwmni yn gallu darparu'r wybodaeth ganlynol:


  *Mae'r tabl yn isod yn nodi nifer y galwadau (larymau wedi'u monitro yn cael eu gweithredu) y maent yn eu derbyn a'r nifer o weithiau y maent yn galw'r GTA.*

| | Ion | Chw | Maw | Ebr | Mai | Meh | Gorff | Awst |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Larwm Mwg** | 1,653 | 1,537 | 1,824 | 1,842 | 1,763 | 1,868 | 1,928 | 1,557 |
| **Gwasanaeth Tân wedi'i Alw** | 48 | 51 | 40 | 58 | 65 | 81 | 80 | 62 |
| **% A Drosglwyddwyd i'r Gwasanaeth Tân** | 2.90% | 3.32% | 2.19% | 3.15% | 3.69% | 4.34% | 4.15% | 3.98% |

Pan fydd y GTA yn mynd atynt, mae'n caniatáu i ni gwblhau Archwiliad Diogel ac Iach gyda'r meddiannydd a chynnig ymyriadau a gwybodaeth yn ôl yr angen.

## 4 Tanau Damweiniol yn y Cartref (TDC)

Aethpwyd at **138** o danau damweiniol yn y cartref yn ystod hanner cyntaf 2024/25, 14.3% yn llai na'r flwyddyn flaenorol (161), a 22.0% yn llai na'r cyfartaledd tair blynedd sef 177.



## 5 Prif achos tanau damweiniol yn y cartref

Roedd nifer o brif achosion am TDC yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn ariannol.


Er mai'r achos mwyaf cyffredin yn ystod Ch.2 2024/25 oedd 'Coginio – coginio arall', roedd hyn yn dal i ddangos gostyngiad o 18.8% o 32 i **26** o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd.

Roedd prif achosion eraill a welodd ostyngiad yn cynnwys:

- 'Nam ar offer neu beiriant' a ddangosodd ostyngiad sylweddol o 53.8% o 26 i **12**
- 'Ymdriniaeth ddiofal – o ganlyniad i waredu diofal' a ostyngodd 42.9% o 14 i **wyth**
- 'Coginio – padell tsips/ffrïwr saim dwfn' a ostyngodd 58.3% o 12 i **bump**.


Er hynny, gwelwyd cynnydd yn ychydig o'r prif achosion yn ystod yr hanner hwn. Roedd y rhain yn cynnwys:

- 'Cyflenwad tanwydd diffygiol – trydan' a gynyddodd 33.3% o naw i **12**
- 'Defnydd esgeulus o offer neu beiriant (ffynhonnell gwres)' a gynyddodd 75.0% o wyth i **14**.



## 6 Marwolaethau ac Anafiadau o Danau Damweiniol yn y Cartref

Yn ystod Ch.2 2024/25, cafodd **22** o bobl anafiadau mewn **19** o Danau Damweiniol yn y Cartref. Ni chofnodwyd unrhyw farwolaethau yn ystod y chwarter.




O'r 22 a anafwyd, roedd **12** (54.6%) wedi eu 'Llethu gan nwy, mwg neu fygdarthau gwenwynig; mygu', cafodd **pedwar** fân anafiadau llosgi, cafodd **tri** anafiadau llosgi difrifol, ac roedd gan **un** 'Anawsterau anadlu (heblaw 'llethu gan nwy, mwg neu fygdarthau gwenwynig; mygu)', a chafodd **un arall** 'Gyfuniad o losgiadau a chael eu llethu gan nwy/mwg'. Cofnodwyd math anaf yr **un** arall a anafwyd fel 'Arall'.


## 7 Larymau Mwg – Tanau Damweiniol yn y Cartref

**Larymau:** roedd larymau mwg/gwres yn bresennol mewn **117** (84.8%) o danau damweiniol yn y cartref yr aethpwyd atynt yn ystod Ch.2 blwyddyn ariannol 2024/25.

Cafodd larymau eu gweithredu a seiniwyd rhybudd mewn **81** (58.7%) TDC.

Nid oedd larymau wedi eu gosod mewn **21** o'r TDC yr aethpwyd atynt.

O'r **138** TDC yr aethpwyd atynt, roedd **122** wedi'u cyfyngu i'r ystafell lle cychwynnodd, ac roedd **16** heb eu cyfyngu.




**Camau a gymerwyd i gefnogi'r rhai sydd fwyaf agored i dân yn eu cartrefi:**

- Cwrs dau ddiwrnod a gynhaliwyd gyda Chyngor Sir Ddinbych gyda phobl ifanc ddigartref.  Bu timau'r GT a chriw Gweithredol yn cymryd rhan.

- Cynhaliwyd sesiynau ymgysylltu gyda grwpiau dementia, myfyrwyr prifysgol, ceiswyr lloches a'r gymuned Teithwyr.

- Mynychwyd sawl ffair haf, sioe sirol a diwrnod agored ledled ardal y gwasanaeth.

- Mae'r Grŵp Llywio'r Ymgyrch yn parhau i weithio gyda'r adran Cyfathrebu Corfforaethol i fynd ati'n rhagweithiol i hyrwyddo diogelwch tân, ffyrdd a dŵr ar draws pob platfform cyfryngau.

- Roedd ymgyrchoedd Diogelwch Haf yn cynnwys ymgysylltu â phob maes carafanau a gwersylla a nodwyd ar draws y gwasanaeth i hyrwyddo defnydd diogel o farbeciws a llosgi dan reolaeth. Roedd y cyswllt wedi amlygu'r angen i "blismona" eu safleoedd i atal cynnau tanau'n fwriadol.
- Mae datblygiad ein staff atal yn parhau yn unol ag Amcanion yr Adran gydag o leiaf 2 sesiwn 30 munud bob mis gan ddefnyddio darparwyr allanol a mewnol.

**Ymweliadau Addysgol ag Ysgolion**

- 37 o ymweliadau ag ysgolion, gan ymgysylltu â 3,888 o blant a phobl ifanc.
    - Mae hyn yn cynnwys chwe ymweliad Criw Craidd gydag ymgysylltu ag 811 o fyfyrwyr.
- Un ymweliad Gorsaf gan ymgysylltu â 30 o fyfyrwyr.
- Tri ymweliad Clwb haf.

**Ffenics**

- Nifer y cyrsiau Ffenics = pedwar
- Un ymyriad byr yn cefnogi'r Cwrs Sgitls.
- Y nifer a gymerodd ran yn Ffenics = 35
- 100% adborth cadarnhaol, 45% yn ennill cymwysterau llawn Agored Cymru.

**Ymyriadau Cyneuwyr Tanau**


- FACE (Addysg Ymwybyddiaeth Tân i Blant) = tri
- Tân Saff = 10
- Ymyriadau Oedolion = 0

**PentrePeryglon**

- 3665 o bobl ifanc drwy'r senario Diogelwch yn y Cartref hyd at ddiwedd Ch.2

## 8 Galwadau Gwasanaeth Arbennig (GGA)

Aethpwyd at gyfanswm o **653** o alwadau gwasanaeth arbennig (gan gynnwys gwrthdrawiadau ar y ffordd) yn ystod Ch.2 2024/25. Mae hyn yn ostyngiad o 1.8% o'i gymharu â'r flwyddyn ariannol flaenorol.




Heblaw am Wrthdrawiadau ar y Ffordd, roedd y categorïau a welodd y **cynnydd** mwyaf o ran mynd atynt yn cynnwys:

- **53** digwyddiad 'Achub arall/rhyddhau personau' – cynnydd o 35.9% o 39.
- **30** digwyddiad 'Rhyddhau o Lifft' – cynnydd o 36.4% o 22.
- **23** digwyddiad 'Tynnu pobl o wrthrychau' – cynnydd o 27.8% o 18.
- **12** digwyddiad 'Achub neu dynnu o ddŵr' – cynnydd o 33.3% o naw.
- **10** digwyddiad 'Deunyddiau Peryglus' – cynnydd o 66.7% o chwech.
- **Pedwar** digwyddiad 'Digwyddiad Meddygol – Ymatebwr Cyntaf' – cynnydd o 33.3% o dri.

Er gwaethaf hyn, gwelodd categorïau eraill **leihad** yn nifer y digwyddiadau yr aethpwyd atynt. Roedd y rhain yn cynnwys:

- **31** digwyddiad **'**Sicrhau mynediad/ymadael' - gostyngiad o 40.4% o 52.
- **29** digwyddiad 'Llifogydd' – gostyngiad o 17.1% o 35.
- **27** digwyddiad 'Cynorthwyo anifeiliaid' – gostyngiad o 40.0% o 45.
- **Dau** ddigwyddiad 'Trafnidiaeth Arall' – gostyngiad o 60.0% o bump.

**Camau gweithredu a gymerwyd hyd yma:**

- Mae Stori Olivia bellach wedi'i hymgorffori yn 'StayWise' Cymru.
- Mae Rheolwyr Gwylfa Diogelwch Tân yn parhau i gyflwyno Stori Olivia ac mae'n parhau'n gyfredol ac yn cael effaith fawr.
  - Pum sesiwn yn ystod Ch.2 gyda 61 yn rhyngweithio.
- Mae digwyddiadau Biker Down a Biker Brew yn parhau ac mae bron pob lle wedi'u harchebu am weddill y flwyddyn.
  - Tri sesiwn yn ystod Ch.2 gyda 56 o fyfyrwyr.
- Ymgyrch Ugain
  - 701 o gyflwyniadau ymyl ffordd (nid yw hyn yn cynnwys ffigurau mis Medi).
  - Pedwar erlyniad

| Mis | Cyfanswm Nifer y Ceir | Cyflwyniadau Ymyl Ffordd | Erlyniadau |
|---|---|---|---|
| **Ionawr** | 356 | 64 | 0 |
| **Chwefror** | 7,301 | 192 | 3 |
| **Mawrth** | 13,422 | 143 | 1 |
| **Ebrill** | 12,187 | 109 | 0 |
| **Mai** | 10,745 | 216 | 1 |
| **Mehefin** | 13,167 | 324 | 0 |
| **Gorffennaf** | 19,311 | 353 | 0 |
| **Awst** | 12,327 | 348 | 4 |

*Cyfansymiau Ymgyrch Ugain*

**Camau Gweithredu Pellach:**

- Mae grwpiau newydd a fyddai'n elwa o dderbyn 'Stori Olivia' yn cael eu harchwilio, megis Myfyrwyr Prifysgol Bangor a Wrecsam.

## 9 Archwiliadau Diogel ac Iach


Yn ystod hanner cyntaf blwyddyn ariannol 2024/25, cwblhawyd cyfanswm o **10,093** Archwiliad Diogel ac Iach, ac o'r rhain:

- Roedd **2,436** (24.1%) yn flaenoriaeth Uchel, gyda **1,375** (56.4% o'r archwiliadau blaenoriaeth uchel) wedi dod gan asiantaeth bartner.
- Roedd **2,024** (20.1%) yn flaenoriaeth Ganolig, gyda **298** (14.7% o'r archwiliadau blaenoriaeth ganolig) yn dod gan asiantaeth bartner.
- Roedd **5,633** (55.8%) yn flaenoriaeth Isel, gyda **427** (7.6% o'r archwiliadau blaenoriaeth isel) yn dod gan asiantaeth bartner.

Er y bu cynnydd o **7.9%** yn nifer yr Archwiliadau Diogel ac Iach a gwblhawyd o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd, bu gostyngiad o **15.1%** yn nifer yr Archwiliadau Diogel ac Iach blaenoriaeth uchel a gwblhawyd. Dyma'r nifer isaf o archwiliadau blaenoriaeth uchel a gynhaliwyd yn ystod hanner cyntaf y pum mlynedd ariannol ddiwethaf.

Er hynny fodd bynnag, afraid dweud bod yr Archwiliadau Diogel ac Iach blaenoriaeth isel a chanolig a gwblhawyd yn dal i fod yn werthfawr. Mae dadansoddiad o anafiadau TDC yn ôl oedran yn dangos bod y mwyafrif helaeth o unigolion sy'n cael eu hanafu gan dân o dan 50 oed; grŵp o unigolion sydd fwyaf tebygol o dderbyn Archwiliad Diogel ac Iach blaenoriaeth isel neu ganolig. Mae poblogaeth y DU yn heneiddio, sy'n golygu hefyd y bydd y rhai sy'n derbyn Archwiliad Diogel ac Iach blaenoriaeth isel neu ganolig heddiw yn debygol o droi'n flaenoriaeth uchel yn y dyfodol, sy'n golygu bod y gwaith a wneir heddiw yn cael ei wneud gydag un llygad ar y risgiau y bydd y meddiannydd yn eu hwynebu un diwrnod.

Ar ben hynny, mae'n bosibl bod nifer o'r archwiliadau blaenoriaeth isel wedi'u cwblhau o ganlyniad targedu stryd fel rhan o fenter Data Caerwysg. Mae'n bosibl y byddai un stryd wedi cynnwys nifer o aelwydydd blaenoriaeth isel ymhlith nifer o archwiliadau Caerwysg, y mae'n bosibl yr oeddent hefyd yn flaenoriaeth isel.



**Camau gweithredu a gymerwyd hyd yma:**

- Ers dechrau Ch.2, mae pob criw Amser Cyflawn/Criw Dydd wedi'u hysbysu i ddefnyddio'r un system "sgorio" i nodi meddiannydd yn gywir fel Isel, Canolig neu Uchel. Bydd yn cymryd amser i hyn gael effaith ar gyfansymiau'r ffigurau ac mae'n bosibl na fydd yn gwbl weladwy tan 25/26, fodd bynnag, mae newidiadau wedi'u nodi'n barod fel y mae'r cynnydd yn nifer yr Archwiliadau Diogel ac Iach lefel Ganolig a gwblhawyd yn dangos.

- Seminar Asiantaeth: Cynhaliwyd digwyddiad yn ystod mis Medi lle derbyniodd cynrychiolwyr gwadd o'r prif asiantaethau cyfeirio fewnbwn gan y tîm Atal i'w helpu i adnabod ein cynulleidfa darged. Mae'n hollbwysig bod ein hatgyfeiriadau yn cael eu targedu cymaint ag y bo modd i sicrhau ein bod yn cael yr effaith fwyaf, ac yn gallu cyflawni mewn modd amserol.
  - Bydd y Rheolwyr Partneriaeth nawr yn defnyddio'r cyflwyniad hwn i barhau gyda'r gwaith yn lleol.

- Cynhaliwyd ymgyrchoedd lleol drwy gydol misoedd yr haf gan bob un o dri thîm ardal y Gwasanaeth Tân. Dewiswyd y lleoliadau ar sail gwybodaeth ôl-ddigwyddiad a'r data Caerwysg a oedd ar gael.

- Mae gweithgarwch Mannau Dwys yn cael ei fonitro yng nghyfarfodydd y GT bob tair wythnos. Nodir unrhyw wendidau a mynd i'r afael â nhw.

- Mae diwrnodau Effaith/cyd-weithio yn parhau i gael eu cyflwyno.

**Camau Gweithredu Pellach:**

- Mae gwaith yn mynd rhagddo i baru cynifer o gyfeiriadau Data Caerwysg â Chyfeirnodau Eiddo Unigryw ag y bo modd.
  - Mae Perfformiad a Chynllunio Corfforaethol yn gweithio i ddatblygu datrysiad, a hefyd yn cysylltu'n agos â GIG Cymru i geisio paru cynifer o gyfeiriadau ag y bo modd â data'r SYG.
  - Hyd yn hyn, mae dros 100,000 o gyfeiriadau wedi'u paru â Chyfeirnodau Eiddo Unigryw allan o'r 170,000~ o gyfeiriadau Caerwysg.


# Ein Hegwyddor Diogelu

## 10 Galwadau Diangen


Aethpwyd at gyfanswm o **1,625** o Alwadau Diangen yn ystod y cyfnod adrodd hwn. Mae hyn yn gynnydd o 7.1% o'i gymharu â'r un cyfnod yn y flwyddyn ariannol flaenorol.

Gellir priodoli'r cynnydd hwn mewn Galwadau Diangen i gynnydd o 16.1% mewn Larymau Tân oherwydd cyfarpar (System larwm awtomatig) (890 i **1,033**), yn ogystal â chynnydd o 38.5% mewn Larymau Ffug Maleisus (26 i **36**). Mae'r ddau bellach ar eu lefelau uchaf yn seiliedig ar y pum mlynedd ariannol ddiwethaf.

Gwelwyd gostyngiad yn nifer y galwadau ffug diffuant o 601 i **556**. Dyma'r nifer isaf o ddigwyddiadau o'r fath a gofnodwyd dros hanner cyntaf y pum mlynedd ariannol ddiwethaf.





Yn ogystal, mae cyfanswm nifer y digwyddiadau systemau larwm awtomatig a gofnodwyd yn ystod Ch.1 wedi gostwng ers y chwarter diwethaf, ac mae nifer y digwyddiadau galwadau ffug diffuant wedi cynyddu. Roedd hyn oherwydd gwall cofnodi, lle'r oedd yr Ystafell Reoli wedi bod yn cofnodi rhai digwyddiadau galwadau ffug diffuant fel Galwadau Diangen Systemau Larwm Awtomatig. Mae'r gwall bellach wedi'i gywiro, ac mae




## 11 Galwadau Larwm Tân Awtomatig Masnachol

Derbyniwyd **938** o alwadau Larwm Tân Awtomatig masnachol yn ystod y cyfnod adrodd, sef y nifer uchaf o alwadau a dderbyniwyd yn ystod unrhyw gyfnod Ch.2 yn y pum mlynedd diwethaf.





## 12 Galwadau Larwm Tân Awtomatig Ysbytai

Derbyniwyd **181** o alwadau Larwm Tân Awtomatig Ysbytai yn ystod Ch.2 2024/25, sef y nifer isaf o alwadau a dderbyniwyd yn ystod unrhyw gyfnod Ch.2 yn y pum mlynedd diwethaf. Aethpwyd at **68**, 49.3% yn llai na'r llynedd (134).



## 13 CEF Berwyn

Cafodd **21** prif dân eu dechrau'n fwriadol yn CEF Berwyn.  Mae hyn 61.5% yn fwy na'r llynedd.




**Camau gweithredu a gymerwyd hyd yma:**

- Mae'r drefn gyfathrebu rhwng Carchar y Berwyn a'r Ystafell Reoli yn parhau i weithio'n dda gyda nifer o ddigwyddiadau ni aethpwyd atynt neu le'r oedd criwiau wedi'u tynnu'n ôl cyn mynd atynt.

- Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cynnal perthynas waith gyda thîm Rheoli CEF y Berwyn i barhau i leihau mynd at ddigwyddiad lle bo modd.

# Ein Hegwyddor Ymateb

## 14 Argaeledd Gorsaf System dyletswydd ar alwad


Mae'r tabl isod yn dangos faint o bympiau oedd ar gael ar gyfartaledd ar gyfer pob Gorsaf System dyletswydd ar alwad rhwng 06:00 a 18:00. Mae'r argaeledd wedi'i rannu fesul mis, ac yn dangos argaeledd yn ystod dyddiau'r wythnos ac ar benwythnosau/gwyliau banc.

Mae'r tabl yn cynrychioli'r holl wylfeydd system dyletswydd ar alwad nad ydynt wedi'u lleoli mewn gorsafoedd criwiau amser cyflawn neu griwiau dydd.

| Argaeledd Gorsafoedd System dyletswydd ar alwad ar gyfartaledd 06:00-18:00 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Diwrnod/Mis** | **Gorffennaf** | **Awst** | **Medi** | **Ch.2** |
| **Dyddiau yn yr Wythnos** | 5 | 4 | 4 | 4 |
| **Penwythnos (gan gynnwys Gwyliau Banc)** | 11 | 11 | 10 | 11 |
| **Cyfartaledd Cyffredinol** | 6 | 7 | 6 | 6 |

D.S. Mae'r niferoedd oedd ar gael wedi'u talgrynnu i lawr i'r rhif cyfan agosaf.

## 15 Argaeledd 18 Pwmp wedi'i Gynllunio




| Nifer y Diwrnodau Argaeledd Wedi'i Gynllunio a Gyflawnwyd | |
|---|---|
| **Bodlonwyd Nifer y Pympiau Oedd ar Gael 100%** | |
| Dyddiau yn yr Wythnos | 64 |
| Penwythnos/Gŵyl Banc | 27 |
| **Ni Fodlonwyd Nifer y Pympiau Oedd ar Gael 100%** | |
| Dyddiau yn yr Wythnos | 1 |

D.S. Dywedodd Rheolwr Argaeledd yr Ystafell Reoli na chyrhaeddwyd argaeledd 18 pwmp ar 29 Awst 2024 am gyfnod o ddwy awr yn ystod y dydd.

## 16 Technolegau Datblygol


Wrth i dechnoleg esblygu a'n dibyniaeth gymdeithasol arni gynyddu, mae wedi dod yn amlwg bod y Gwasanaeth Tân yn wynebu risgiau newydd a chymhleth. Gall technolegau datblygol fod ar sawl ffurf, gan gynnwys pethau megis:

- Cerbydau Trydan
- Ffermydd Gwynt
- Dyfeisiau sy'n cynnwys Batris Ïon-Lithiwm

Pwrpas yr ychwanegiad newydd hwn i'r Adroddiad Monitro Perfformiad yw tynnu sylw at ba ddigwyddiadau y mae GTAGC yn mynd atynt sy'n ymwneud â'r technolegau datblygol hyn, trwy nodi nifer y digwyddiadau, yn ôl y math o dechnoleg, yr ydym yn mynd atynt.

Gan nad yw llawer o'r technolegau hyn yn cael eu cofnodi ar hyn o bryd o fewn System Cofnodi Digwyddiadau'r Swyddfa Gartref, defnyddir chwiliadau geiriau allweddol ar gofnodion digwyddiadau i ddod o hyd i'r digwyddiadau perthnasol. Mae gwaith ar y gweill gan y Swyddfa Gartref i integreiddio'r technolegau hyn i'w system gofnodi, gyda'r bwriad o gyflwyno hyn o bosibl erbyn Ch.1 2025.

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r data digwyddiadau sy'n ymwneud â thechnolegau datblygol. Mae'r data hwn am y cyfnod rhwng mis Ebrill 2024 a mis Medi 2024.





D.S. Roedd rhai o'r digwyddiadau hyn yn cynnwys cynnau nwyddau yn fwriadol i ddechrau tân. Ar ben hynny, roedd digwyddiadau eraill yn cynnwys difrodi cyfarpar a dechrau tân o ganlyniad.

# Ein Hegwyddor Amgylcheddol


## 17 Tanau glaswelltir, coetir a chnydau

Cofnodwyd **137** o danau glaswelltir, coetir a chnydau yn ystod y chwarter, gostyngiad o 30.1% o'r 196 a gofnodwyd yn ystod yr un cyfnod y llynedd. Mae hyn 51.1% yn is na'r cyfartaledd tair blynedd o 280.




## 18 Tanau gwyllt


Aethpwyd at **bedwar** tân gwyllt yn ystod y cyfnod. Mae hyn 80.0% yn is na'r cyfartaledd o 20 dros dair blynedd. O ganlyniad, gostyngodd yr amser a dreuliwyd yn monitro'r digwyddiad i dros 229 awr, o'i gymharu â bron 477 awr yn ystod yr un cyfnod yn y flwyddyn flaenorol, pan aethpwyd at 13 tân gwyllt.



## 19 Llifogydd

Aethpwyd at **29** digwyddiad llifogydd yn ystod hanner cyntaf 2024/25. Mae hyn yn ostyngiad o 17.1% yn nifer y digwyddiadau yr aethpwyd atynt o'i gymharu â'r un cyfnod yn y flwyddyn flaenorol, ac mae'n gynnydd o 3.6% dros y cyfartaledd tair blynedd (28).

Rhoddwyd cyngor mewn **13** digwyddiad, ac aethpwyd at **wyth** digwyddiad i wneud y lleoliad yn ddiogel.



## Geirfa

| | |
|---|---|
| Tanau | Mae pob tân yn perthyn i un o dri chategori – prif danau, tanau eilaidd neu danau simnai. |
| Prif Danau | Mae'r rhain yn danau nad ydynt yn danau simnai, ac sydd mewn unrhyw fath o adeilad (ac eithrio adfail), cerbydau, carafanau a threlars, storfeydd awyr agored, peiriannau ac offer, eiddo amaethyddol a choedwigaeth, a strwythurau awyr agored eraill megis pontydd, blychau post, twneli, ac ati.<br><br>Mae tanau mewn unrhyw leoliad yn cael eu categoreiddio'n brif danau os oedden nhw'n cynnwys anafiadau, achub neu ddianc, yn ogystal â thanau mewn unrhyw leoliad yr aeth pump neu fwy o beiriannau tân atynt. |
| Tanau Eilaidd | Tanau eilaidd yw tanau nad ydynt yn danau simnai nac yn brif danau.<br><br>Nid yw tanau eilaidd yn cynnwys anafiadau, achub na dianc, a byddai pedwar neu lai o beiriannau tân wedi mynd atynt.<br><br>Tanau eilaidd yw'r rhai a fyddai fel arfer yn digwydd mewn lleoliadau megis tir agored, mewn coeden unigol, ffensys, polion telegraff, sbwriel a chynwysyddion sbwriel (ond nid banciau papur, a fyddai'n cael eu hystyried – yn yr un ffordd ag eiddo amaethyddol a choedwigaeth – i fod yn brif danau), dodrefn awyr agored, goleuadau traffig, ac ati. |
| Tanau Simnai | Tanau mewn adeiladau a ddefnyddir gan bobl yw'r rhain, a'r tân wedi'i gyfyngu i strwythur y simnai, hyd yn oed os yw gwres neu ddifrod mwg yn ymestyn y tu hwnt i'r simnai ei hun.<br><br>Nid yw tanau simnai yn cynnwys anafiadau, achub na dianc, a byddai pedwar neu lai o beiriannau tân wedi mynd atynt. |
| Digwyddiadau Gwasanaeth Arbennig | Digwyddiadau heb dân yw'r rhain lle mae angen presenoldeb peiriant tân neu swyddog ac maent yn cynnwys:<br><br>a) Argyfyngau lleol, e.e. llifogydd, digwyddiadau ar y ffordd, achub personau, 'gwneud yn ddiogel' ac ati;<br>b) Trychinebau mawr;<br>c) Digwyddiadau domestig, e.e. dŵr yn gollwng, pobl wedi'u cloi i mewn neu allan ac ati;<br>d) Trefniadau blaenorol i fynd at ddigwyddiadau, a all gynnwys rhoi cyngor a chynnal archwiliadau. |
| Galwadau Diangen (canllawiau cyffredinol) | Pan fo'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn mynd i leoliad yn credu bod digwyddiad, ond ar ôl cyrraedd yn darganfod nad oes digwyddiad o'r fath yn bodoli, neu wedi bodoli.<br><br>Sylwer: os yw'r peiriant tân yn cael ei 'droi rownd' gan yr Ystafell Reoli cyn cyrraedd y digwyddiad, nid yw'n cael ei ystyried fel un mae'r gwasanaeth wedi mynd ato ac nid oes angen rhoi gwybod amdano. |

| | |
|---|---|
| Galwadau Diangen – Maleisus | Mae'r rhain yn alwadau a wneir gyda'r bwriad o gael y Gwasanaeth Tân ac Achub i fynd at ddigwyddiad nad yw'n bodoli, gan gynnwys bwriadau maleisus bwriadol ac amheus. |
| Galwadau Diangen – Diffuant | Mae'r rhain yn alwadau a wneir gyda phob ewyllys da, gan gredu y byddai'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn mynd at dân go iawn neu ddigwyddiad gwasanaeth arbennig. |
| Galwadau Diangen – LTA | Mae'r rhain yn alwadau sydd wedi'u cychwyn gan larwm tân ac offer diffodd tân. Maent yn cynnwys larwm wedi'i gychwyn yn ddamweiniol neu pan fo larwm yn gweithredu a pherson yn galw'r GTA yn rheolaidd fel rhan o drefniant sefydlog, h.y. heb unrhyw 'farnu', er enghraifft galwad gan ganolfan alwadau diogelwch neu berson enwebedig mewn sefydliad. |
| Adeilad – Cartrefi | Eiddo sy'n fan preswylio, h.y. sy'n aelwyd lle mae pobl yn byw, ac eithrio gwestai, hosteli a strwythurau preswylio nad ydynt yn barhaol. |
| Adeilad – Dibreswyl | Eiddo megis ysbytai, swyddfeydd, siopau, ffatrïoedd, warysau, bwytai, sinemâu, adeiladau cyhoeddus, adeiladau crefyddol, adeiladau amaethyddol, gorsafoedd rheilffordd, siediau, neu garchardai. |
| Adeilad – Preswyl Arall | Eiddo megis gwestai, hosteli a sefydliadau preswyl, busnesau gwely a brecwast, cartrefi nyrsio/gofal, neuaddau preswyl myfyrwyr. |
| Cerbyd (Ffordd a Thrafnidiaeth Arall) | Cerbyd ffordd, cerbyd rheilffordd, cerbyd awyr, cwch. |
| Awyr agored | Caeau, glaswelltir, coetir, cynwysyddion sbwriel, blychau post. |
| Tanau gwyllt | Tân glaswelltir, coetir a chnydau lle'r aeth 4 cerbyd neu fwy at y digwyddiad, neu le bu'r Gwasanaeth yn bresennol am 6 awr neu fwy, neu le amcangyfrifwyd bod ardal difrod y tân yn fwy na 10,000 metr sgwâr. |
| Salwch Tymor Byr (STS) | Absenoldebau 27 diwrnod calendr a llai. |
| Salwch Hirdymor (LTS) | Absenoldebau 28 diwrnod calendr a mwy. |

*This document is available in English* **Eitem Agenda 8**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Y Panel Gweithredol** |
| Dyddiad | **16 Rhagfyr 2024** |
| Swyddog Arweiniol | **Gareth Owens, Clerc yr Awdurdod a'r Swyddog Monitro** |
| Swyddog Cyswllt | **Llinos Gutierrez-Jones, Pennaeth Adnoddau Dynol** |
| Pwnc | **Meincnodi cyflog y Prif Swyddog Tân bob tair blynedd** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Rhoi gwybod i Aelodau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) am ganlyniad meincnodi cyflog y Prif Swyddog Tân (PST) bob tair blynedd.

**ARGYMHELLIAD**

2 Argymhellir bod yr Aelodau'n:

i) Cadarnhau i'r Awdurdod eu bod, drwy'r Panel Gweithredol, wedi cyflawni eu dyletswydd i gynnal ymarfer meincnodi tair blynedd yn unol â'r dull "dau drac" ar gyfer pennu lefelau tâl ar gyfer Rheolwyr Brigâd fel y rhagnodir gan y Cyd-gyngor Cenedlaethol; a

ii) nodi canfyddiadau'r ymarfer.

**CEFNDIR**

3 Ar 25 Hydref 2021 mabwysiadodd yr Awdurdod un set o egwyddorion tâl ar gyfer Tâl Prif Reolwyr. Roedd hyn yn rhoi dull cyson i'r Aelodau o bennu ffigwr annibynnol a oedd yn adlewyrchu dyheadau a gwerthoedd yr Awdurdod.

4 Dyma'r egwyddorion tâl hyn:

i. bydd graddfeydd tâl yn gysylltiedig â'r cyfraddau tâl sylfaenol cyfartalog a gesglir ac a gyhoeddir gan y cyd-gyngor cenedlaethol ar gyfer rheolwyr brigâd gwasanaethau tân ac achub awdurdodau lleol er mwyn rhoi cymariaethau priodol sy'n benodol i'r sector;

ii. bydd pob lefel uwch yn cael ei chyflogi ar raddfa tri phwynt gyda chynnydd i fyny'r raddfa yn amodol ar arfarniad blynyddol boddhaol. Bydd pob cynyddran ar y raddfa yn seiliedig ar ffigwr o £1,500 ar gyfer y Prif Swyddog Tân; a chyfran gymharol ar gyfer y swyddi eraill;

iii. bydd yr awdurdod yn talu, ar waelod y raddfa dri phwynt, y tâl sylfaenol cyfartalog ar gyfer awdurdod ym mand poblogaeth 2, a fydd yn cynnwys yr holl ddyletswyddau;

iv. bydd y dyfarniadau tâl blynyddol a drafodir ac y cytunir arnynt yn genedlaethol yn cael eu cymhwyso'n awtomatig, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd yn achos gweithwyr "llyfr llwyd" a "llyfr gwyrdd" (yn amodol ar gyflogai yn dewis hepgor unrhyw ran ohono);

v. adferwyd y perthynoledd tâl rhwng rolau'r Prif Swyddog Tân (PST), y Dirprwy Brif Swyddog Tân (DBST), y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (PSTC) a'r Prif Swyddog Cynorthwyol (PSC) i'r cyfrannau o fewn Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth) cyn 2009, ac sy'n arferol yn y rhan fwyaf o Wasanaethau Tân ac Achub. Cyfrifir cyflog pob lefel uwch fel cyfran o gyflog y PST fel a ganlyn: Dirprwy Brif Swyddog Tân 80%; Prif Swyddog Tân Cynorthwyol 75%; Prif Swyddog Cynorthwyol 60%;

vi. bydd swyddi o faint priodol, yn berthynol i ba mor uchel ydynt, ac o faint cyfartal ar draws pawb ar y lefel honno er mwyn sicrhau bod swyddogion yn cael tâl cyfartal am waith o werth cyfartal; a

vii. bydd tâl yn cael ei adolygu'n rheolaidd yn unol â'r gofynion o dan y dull 'dau drac ' ar gyfer pennu lefelau tâl ar gyfer Rheolwyr Brigâd, fel y rhagnodir gan y Cyd-gyngor Cenedlaethol. Tair blynedd yw'r cyfnod derbyniol.

**GWYBODAETH**

5 Mae'r saith egwyddor tâl yn galluogi'r Awdurdod i bennu cyflogau staff uwch yn seiliedig ar gyfraddau cymharol a delir i Brif Swyddogion Tân yr ardaloedd Poblogaeth Band 2. Mae hyn yn cael gwared ar elfen o oddrychedd ac yn helpu i sicrhau bod yr Awdurdod yn parhau i fod yn gystadleuol wrth geisio denu a chadw uwch arweinwyr o'r tu mewn i'r Gwasanaeth neu rywle arall.

6 Mae'r Clerc, y Prif Swyddog Tân a'r Trysorydd wedi adolygu cyflog y Prif Swyddog Tân presennol yn erbyn ffigurau meincnodi a gynhyrchwyd gan y Gymdeithas Llywodraeth Leol fel ochr y cyflogwr yn y Cyd-gyngor Cenedlaethol ar gyfer Rheolwyr Brigâd Gwasanaethau Tân ac Achub Awdurdodau Lleol. Mae'r adroddiad ar gyfer 2021 a 2022 yn rhoi'r meincnod diweddaraf ac mae'n seiliedig ar archwilio lefelau tâl holl awdurdodau tân y DU. Y ffigwr meincnod yw £138,623.

7 Mae cymhwyso'r cynnydd blynyddol y cytunwyd arno yn genedlaethol (4% 3.5% a 3%) i'r ffigurau a gasglwyd ar 31 Mawrth 2022, cyn y cytunwyd ar gynnydd 2021, yn cynhyrchu ffigwr meincnod o £153,690. Mae hyn yn dangos bod cyfraddau tâl yr Awdurdod yn dal i fod yn gyson ag egwyddorion i a ii a'u bod yn parhau i fod yn gystadleuol.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Amh. |
| Cyllideb | Mae'r cyllid ar gyfer y swydd hon o fewn y gyllideb bresennol |
| Cyfreithiol | Mae'r Awdurdod yn cyflawni ei ddyletswyddau i feincnodi cyflog y Prif Swyddog Tân bob tair blynedd |
| Staffio | Bellach gellir dangos bod y cyflog yn gystadleuol |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Nid yw cyflog y swydd hon yn gwahaniaethu yn erbyn unrhyw berson sydd â'r nodweddion gwarchodedig, ar yr amod eu bod yn bodloni'r meini prawf hanfodol ar gyfer y rôl. |
| Risgiau | Dim |

**ATODIAD UN**

## Arolwg Tâl y Gymdeithas Llywodraeth Leol – cyhoeddwyd 2023

Tâl sylfaenol cyfartalog prif swyddogion tân ym mhob awdurdod tân ac achub ar 31 Mawrth 2022 oedd £149,056, cynnydd o 0.1 y cant ers 2021. Ymhlith y dirprwy brif swyddogion tân, gostyngodd y tâl sylfaenol cyfartalog 1.3 y cant i £122,452. Gostyngodd tâl sylfaenol cyfartalog prif swyddogion tân cynorthwyol 0.7 y cant i £109,865. Dangosir dadansoddiad yn ôl band poblogaeth yn Nhabl 3.

Tabl 3: Tâl sylfaenol cyfartalog

| | Prif swyddog tân | Prif swyddog tân | Dirprwy brif swyddog tân | Dirprwy brif swyddog tân | Prif swyddog tân cynorthwyol | Prif swyddog tân cynorthwyol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Band poblogaeth | 2021 | 2022 | 2021 | 2022 | 2021 | 2022 |
| 1 | 130,956 | 131,918 | 117,023 | 107,504 | 92,376 | 93,170 |
| 2 | 139,618 | 138,623 | 111,717 | 111,117 | 98,837 | 101,333 |
| 3 | 152,038 | 153,181 | 131,075 | 131,980 | 110,716 | 109,198 |
| 4 | 161,353 | 162,472 | 132,658 | 129,847 | 116,838 | 115,420 |
| Cyfanswm (gan gynnwys Llundain) | 148,986 | 149,156 | 124,044 | 122,452 | 110,666 | 109,865 |

Sylfaen: Pob ymatebwr (48).

Prin iawn fu'r newid yng nghyfanswm tâl gros cyfartalog prif swyddogion tân rhwng 2021 a 2022 pan oedd yn £149,752. Ar gyfer Dirprwy Brif Swyddogion Tân, gostyngodd tâl gros 0.9 y cant i £124,744 ac ar gyfer Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol gostyngodd 1.4 y cant i £110,076. Dangosir dadansoddiad yn ôl band poblogaeth yn Nhabl 4.

*This document is available in English*

**Eitem Agenda 9**

| | |
|---|---|
| Adrodd i'r | **Panel Gweithredol** |
| Dyddiad | **16 Rhagfyr 2024** |
| Swyddog Arweiniol | **Stewart Forshaw, Dirprwy Brif Swyddog Tân** |
| Swyddog Cyswllt | **Anthony Jones, Pennaeth Cynllunio, Perfforn a Thrawsnewid** |
| Pwnc | **Rheoli Risg Strategol** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Darparu i'r Aelodau;

- diweddariad ar ddatblygiad y broses rheoli risg;
- amlinelliad o'r Datganiad Parodrwydd i Dderbyn Risg; a
- throsolwg o Gofrestr Risg Strategol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod)

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Ers y diweddariad diwethaf, ac yn dilyn adolygiad o reolaethau mewnol gan archwilwyr mewnol, Mersey Internal Audit Agency (MIAA), mae sawl newid i'r ffordd y mae risg yn cael ei chofnodi a'i rheoli yn cael eu gweithredu i gryfhau'r broses rheoli risg.

3 Mae Datganiad Parodrwydd i Dderbyn Risg drafft hefyd wedi'i ddatblygu a arweiniodd at adolygu'r themâu risg, y mae wyth ohonynt bellach. Mae'r matrics Parodrwydd i Dderbyn Risg, a gefnogodd ddatblygu'r Datganiad Parodrwydd i Dderbyn Risg drafft, wedi'i gynnwys yn Atodiad 1.

4 Mae'r adroddiad yn rhoi diweddariad i'r Aelodau o gynnwys Cofrestr Risg Strategol yr Awdurdod.

**ARGYMHELLION**

5 Argymhellir bod yr Aelodau'n:

i) nodi datblygiad y broses rheoli risg;
ii) cymeradwyo'r Datganiad Parodrwydd i Dderbyn Risg drafft; ac yn
iii) nodi'r Gofrestr Risg Strategol.

**CEFNDIR**

6 Mae Cofrestr Risg Strategol yr Awdurdod yn nodi risgiau hysbys a allai atal yr Awdurdod o bosibl rhag cyflawni'r canlyniadau a gynlluniwyd ganddo a/neu gyflawni ei swyddogaethau craidd. Pennir sgoriau risg i'r cofnodion yn y gofrestr, sy'n cael eu hailwerthuso'n rheolaidd gan swyddogion i adlewyrchu'r sefyllfa bresennol ac effaith ragweledig camau lliniaru arfaethedig.

7 O dan y polisi hwn, mae'r Panel Gweithredol yn derbyn adroddiad crynhoi ynghylch risgiau strategol o leiaf ddwywaith y flwyddyn. Rhwng cyfarfodydd, gall Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd yr Awdurdod weld manylion llawn y gofrestr gyda swyddogion.

**GWYBODAETH**

**Datblygiadau i brosesau rheoli risg**

8 Ers y diweddariad diwethaf, ac yn dilyn yr adolygiad o reolaethau mewnol gan archwilwyr mewnol, MIAA, mae sawl newid i'r ffordd y mae risg yn cael ei chofnodi a'i rheoli yn cael eu gweithredu.

9 Mae Penaethiaid Adrannau yn gyfrifol am nodi a rheoli'r risgiau y maent yn berchen arnynt. Fodd bynnag, mae Pwyllgor Risg Strategol wedi'i ychwanegu at y Strwythur Sicrwydd Llywodraethiant. Ymhlith pethau eraill, mae'r pwyllgor hwn yn gyfrifol am adolygu'r risgiau hynny y nodir eu bod yn Risg Uchel neu Uchel Iawn.

10 Cefnogir y Pwyllgor Risg Strategol yn ei waith gan bob Pwyllgor arall yn y Strwythur Sicrwydd Llywodraethiant, y mae gan bob un ohonynt bellach risg yn eitem agenda sefydlog i drafod risgiau newydd a phresennol yng nghyd-destun eu ffrydiau gwaith priodol.

11 Mae Datganiad Parodrwydd i Dderbyn Risg drafft hefyd wedi'i ddatblygu a arweiniodd at adolygu'r themâu risg, y mae wyth ohonynt bellach. Mae'r matrics Parodrwydd i Dderbyn Risg, a gefnogodd ddatblygu'r Datganiad Parodrwydd i Dderbyn Risg, wedi'i gynnwys yn Atodiad 1.

**Datganiad Parodrwydd i Dderbyn Risg (Drafft) Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru**
Diweddarwyd diwethaf: 12/11/2024 yn y Pwyllgor Risg Strategol

12 Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod ei gynaliadwyedd hirdymor yn dibynnu ar wneud y gorau o risg mewn perthynas â chyflawni ei amcanion strategol, a hefyd bod y berthynas â chymunedau, staff, contractwyr, y cyhoedd a rhanddeiliaid eraill yn allweddol i lwyddiant y Gwasanaeth.

13 Nid oes gan yr Awdurdod un parodrwydd i dderbyn risg, ond yn hytrach gwahanol barodrwydd ar draws ystod ei weithgareddau. Rydym yn cydnabod wrth geisio cyflawni ein hamcanion llesiant a gwella, y gallem ddewis dderbyn gwahanol raddau o risg mewn gwahanol feysydd.

14 Mae ein parodrwydd i dderbyn risg wedi'i ddiffinio ar ôl ystyried risgiau, materion a chanlyniadau sefydliadol. Ein nod bob amser fydd gweithredu gweithgareddau sefydliadol ar y lefelau a ddiffinnir isod. Pan ragwelir y bydd gweithgareddau yn mynd y tu hwnt i'r lefelau diffiniedig, rhaid tynnu sylw at hyn drwy fecanweithiau llywodraethiant priodol.

15 **Risgiau ariannol:** Rydym wedi mabwysiadu safbwynt **pwyllog** ar gyfer risgiau ariannol gan gyfeirio at gostau rhedeg craidd, gan geisio opsiynau cyflwyno gwasanaethau yn ddiogel heb fawr o risg weddilliol a fydd ond yn esgor ar rywfaint o gyfleoedd manteisiol. Bydd yr Awdurdod yn derbyn sicrwydd parhaus drwy'r datganiad llywodraethiant blynyddol bod polisïau a gweithdrefnau ar waith yn unol â chanllawiau CIPFA/SOLACE (Cymdeithas Prif Weithredwyr ac Uwch-reolwyr Awdurdodau Lleol Cymru).

16 **Risgiau Ymateb/Gweithrediadau:** Rydym wedi mabwysiadu safbwynt **pwyllog** ar gyfer risgiau i'n gallu i ymateb i argyfyngau, gan geisio diogelu ein gallu i leihau risg i'r cyhoedd wrth sicrhau'r diogelwch gorau posibl i'n diffoddwyr tân.

17 **Risgiau cydymffurfio Cyfreithiol/Rheoleiddiol:** Rydym wedi mabwysiadu safbwynt **minimol** ar gyfer cydymffurfio, gan geisio ffafrio cadw at gyfrifoldebau, ac opsiynau cyflwyno gwasanaethau yn ddiogel heb fawr o risg weddilliol. Bydd yr Awdurdod yn derbyn sicrwydd blynyddol bod cyfundrefnau cydymffurfio ar waith, drwy'r Datganiad Llywodraethiant Blynyddol.

18 **Risgiau i'n Henw Da:** Rydym wedi mabwysiadu safbwynt **agored** ar gyfer risgiau i'n henw da, gan ffafrio opsiynau cyflwyno gwasanaethau yn ddiogel, caniatáu lefel bwyllog o risg weddilliol a dewis yr opsiwn a fydd yn fwyaf tebygol o arwain at gyflwyno gwasanaethau yn llwyddiannus, a thrwy hynny wella ein henw da am gyflwyno gwasanaethau costeffeithiol o ansawdd uchel i'r cyhoedd.

19 **Risgiau Pobl:** Rydym wedi mabwysiadu safbwynt **pwyllog** mewn perthynas â risgiau Pobl. Credwn yn gryf ym mhwysigrwydd ymgysylltu'n gadarnhaol â staff a chynnal diwylliant sy'n cael ei arwain gan werthoedd i gefnogi ein holl staff. Mae recriwtio a chadw diffoddwyr tân ar alwad yn her arbennig yn rhai o'n cymunedau mwy gwledig.

20 **Risgiau Gwybodaeth:** Rydym wedi mabwysiadu safbwynt **pwyllog** o ran risg rheoli a storio gwybodaeth bersonol, i adlewyrchu sensitifrwydd a phwysigrwydd yr wybodaeth sy'n cael ei chadw ar ein systemau i gefnogi ein gweithgareddau atal a diogelu yn ogystal â gwybodaeth staff a brosesir at ddibenion cyflogaeth.

21 **Risgiau Technoleg/Seiber:** Rydym wedi mabwysiadu safbwynt **minimol** ar gyfer bygythiadau i'n hasedau sy'n deillio o ymosodiadau maleisus allanol. Er mwyn mynd i'r afael â'r risg hon, rydym yn gweithredu prosesau rheoli mewnol cryf ac yn defnyddio datrysiadau technolegol cadarn.

22 **Risgiau Asedau/Ystadau:** Rydym wedi mabwysiadu safbwynt **pwyllog** ar gyfer asedau ac ystadau, gan geisio gwerth am arian ond ffafrio opsiynau cyflwyno gwasanaethau profedig sydd â risg weddilliol isel. Mae hyn yn golygu ein bod yn defnyddio datrysiadau ar gyfer prynu, rhentu, gwaredu, adeiladu ac adnewyddu sy'n sicrhau ein bod yn diogelu'r trethdalwr rhag cymaint o risg ag y bo modd, gan greu gwerth da am arian wrth fodloni gofynion sefydliadol yn llawn.

23 **Cofrestr Risg Strategol**

| **Thema** | **Camau Lliniaru** |
|---|---|
| **Ariannol**<br>(Parodrwydd i Dderbyn Risg - Pwyllog) | |
| Oherwydd digwyddiadau annisgwyl, gan gynnwys gwendidau o ran rheoli cyllidebau, mae risg na fydd gwasanaethau'n cael eu cyflwyno o fewn y gyllideb y cytunwyd arni. | Gwybodaeth ariannol ar gael i ddeiliaid cyllidebau mewn amser real, a gwybodaeth ychwanegol wedi'i darparu ynghylch meysydd risg uchel, lefel uchel.<br><br>Achos busnes i'w gwblhau ar gyfer pob gwariant ychwanegol a gwariant cyfalaf.<br><br>Gweithgor Craffu ar Gyllidebau'r Aelodau i sicrhau bod y gyllideb briodol yn cael ei gosod.<br><br>Hyrwyddo cadw at Reolau Gweithdrefnol Contractau a'r cynllun dirprwyo.<br><br>Rheolwr Caffael a Chontractau yn cefnogi adrannau i nodi llwybrau caffael priodol. |
| Oherwydd cymhlethdod rheolau pensiynau a'r angen i fynd i'r afael â heriau cyfreithiol, mae risg na fydd terfynau amser yn cael eu bodloni. | Aelod o Fwrdd Cynghori'r cynllun.<br><br>Mae ansawdd y data yn gwella.<br><br>Mae llifau arian y tu allan i'r gronfa bensiwn. |

| | |
|---|---|
| **Ymateb/Gweithrediadau**<br>(Parodrwydd i Dderbyn Risg - Pwyllog)<br><br>Recriwtio a chadw digon o staff er mwyn gallu parhau i gyflwyno'r gwasanaethau gyda heriau penodol o ran cynnal gwasanaeth ymateb i argyfwng mewn ardaloedd gwledig. | Timau recriwtio ac argaeledd penodedig ym mhob ardal.<br><br>Grwpiau penodedig a'r Pwyllgor yn y Strwythur Sicrwydd yn canolbwyntio ar y risg hon.<br><br>Swyddogion, staff a grwpiau cynrychioliadol yn gweithio mewn partneriaeth gymdeithasol i gyflawni nodau'r Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys.<br><br>Adnodd argaeledd fesul dydd pwrpasol yn sicrhau bod uchafswm nifer y peiriannau ar gael ar draws Gogledd Cymru. |
| **Enw da**<br>(Parodrwydd i Dderbyn Risg - Agored)<br><br>Oherwydd y canolbwynt mewnol ac allanol presennol ar ddiwylliant o fewn Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru a'r Awdurdod mae risg i enw da'r Gwasanaeth a'r Awdurdod. | Dadansoddiad strategol o'r bylchau a chynlluniau gweithredu yn erbyn holl adolygiadau diwylliannol diweddar y Gwasanaeth Tân ac Achub.<br><br>Pwyllgor Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant sy'n canolbwyntio ar ddiwylliant mewnol.<br><br>Amrywiaeth o rwydweithiau staff sefydledig.<br><br>Adolygiad o ddiwylliant gan Crest Advisory.<br><br>Arolwg Teulu Tân bob dwy flynedd a Gweithgor Staff.<br><br>Fforwm Ymgysylltu â Staff wedi'i sefydlu.<br><br>Adnoddau Iechyd a llesiant pwrpasol ar gyfer staff, gan gynnwys Safecall. |

| | |
|---|---|
| **Technoleg/Seiber** (Parodrwydd i Dderbyn Risg - Minimol) | |
| Technoleg/Seiber - Ymosodiad seibr ar wybodaeth, cyfathrebu a thechnoleg. | Monitro bygythiadau byd-eang yn barhaus ac adolygu amddiffynfeydd diogelwch seibr<br>(Achrediad Hanfodion Seibr/Cyber Essentials wedi'i gyflawni - cynllun a gefnogir gan y Llywodraeth sy'n amddiffyn sefydliadau yn erbyn amrywiaeth o'r ymosodiadau seibr mwyaf cyffredin.)<br><br>Ymdrechu i ddenu personél sydd â'r sgiliau gofynnol i gefnogi cydymffurfio gydag arferion gorau.<br><br>Gwneud gwaith cynnal a chadw ataliol, ac adolygu technolegau gwydn |

Diffinnir **Risg** fel cyfuniad o debygolrwydd a chanlyniadau digwyddiadau peryglus.
**Tebygolrwydd:** y siawns y bydd rhywbeth yn digwydd. Gellir ei ddisgrifio yn unol â pha mor debygol, pa mor aml neu ba mor ansicr y mae digwyddiadau.
**Canlyniad:** Canlyniad digwyddiad. Yn benodol, difrifoldeb neu raddau'r niwed a achoswyd gan ddigwyddiad.

## GOBLYGIADAU

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae cynnal y gofrestr a chymryd camau i reoli risg yn cynyddu'r tebygolrwydd y caiff nodau llesiant yr Awdurdod eu cyflawni. |
| Cyllideb | Mae cynnal y gofrestr yn helpu i flaenoriaethu penderfyniadau o ran gwario a fyddai'n lleihau lefelau risg. |
| Cyfreithiol | Mae cynnal y gofrestr yn helpu i sicrhau bod yr Awdurdod yn cydymffurfio â deddfwriaeth sy'n diffinio ei swyddogaethau a sut y mae'n gweithredu. |
| Staffio | Ni nodwyd unrhyw oblygiadau penodol. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Ni nodwyd unrhyw oblygiadau penodol. |
| Risgiau | Bwriad camau lliniaru yw lleihau'r tebygolrwydd y bydd risg yn digwydd. |

ATODIAD 1 - MATRICS PARODRWYDD I DDERBYN RISG

| Lefel Parodrwydd i Dderbyn Risg ▶<br><br>Mathau o Risg ▼ | **GWRTH-RISG**<br>Mae osgoi risg yn amcan sefydliadol allweddol. | **MINIMOL**<br>Ffafrio opsiynau cyflwyno gwasanaethau yn ddiogel iawn y mae ganddynt lefel isel o risg gynhenid a photensial cyfyngedig yn unig am fuddion. | **PWYLLOG**<br>Ffafrio opsiynau cyflwyno gwasanaethau yn ddiogel<br>y mae ganddynt lefel isel o risg weddilliol a photensial cyfyngedig yn unig am fuddion. | **AGORED**<br>Yn barod i ystyried yr holl opsiynau posibl am gyflwyno gwasanaethau a'u dewis wrth hefyd darparu lefel dderbyniol o fuddion. | **AWYDDUS**<br>Awyddus i fod yn arloesol a dewis opsiynau sy'n cynnig mwy o<br>fuddion busnes (er gwaethaf risg gynhenid uwch). |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ariannol** | Does gennym ddim parodrwydd am benderfyniadau neu weithredoedd a allai arwain at golled ariannol. | Rydym ond yn barod i dderbyn y posibilrwydd o risg ariannol gyfyngedig iawn. | Rydym yn barod i dderbyn y posibilrwydd o risg ariannol gyfyngedig. Fodd bynnag, Gwerth am Arian<br>yw ein prif ystyriaeth. | Rydym yn barod i dderbyn rhywfaint o risg ariannol cyhyd â bod rheolaethau priodol ar waith. Mae gennym ddealltwriaeth o Werth am Arian ac nid pris mo'r brif ffactor | Byddwn yn buddsoddi er yr adenillion gorau posibl ac yn derbyn y posibilrwydd o<br>risg ariannol uwch. |
| **Ymateb/Gweithrediadau** | Does gennym ddim parodrwydd am benderfyniadau a allai gael effaith ansicr ar gyflawni gweithredol. | Byddwn yn osgoi unrhyw beth a allai effeithio ar ein gallu i ymateb yn effeithiol oni bai ei fod yn gwbl hanfodol. Byddwn yn osgoi arloesedd oni bai ei fod wedi'i hen sefydlu ac wedi profi ei fod yn effeithiol mewn amrywiaeth o leoliadau. | Rydym yn ffafrio osgoi risg. Fodd bynnag, os bydd angen, byddwn yn gwneud penderfyniadau ynghylch cyflawni gweithredol lle mae lefel isel o risg gynhenid a'r posibilrwydd am ganlyniadau gwell, ac mae rheolaethau priodol ar waith. | Rydym yn barod i dderbyn y posibilrwydd o effaith tymor byr<br>ar ganlyniadau ansawdd gyda'r posibilrwydd am fuddion tymor hwy. Rydym yn cefnogi arloesedd. | Byddwn yn anelu am arloesedd lle bynnag y bo'n briodol. Rydym<br>yn barod i wneud penderfyniadau ynghylch cyflawni gweithredol lle gallai fod risgiau cynhenid uwch ond y posibilrwydd o fuddion<br>tymor hwy sylweddol. |

| Lefel Parodrwydd i Dderbyn Risg ▶<br><br>Mathau o Risg ▼ | **GWRTH-RISG**<br>Mae osgoi risg yn amcan sefydliadol allweddol. | **MINIMOL**<br>Ffafrio opsiynau cyflwyno gwasanaethau yn ddiogel iawn y mae ganddynt lefel isel o risg gynhenid a photensial cyfyngedig yn unig am fuddion. | **PWYLLOG**<br>Ffafrio opsiynau cyflwyno gwasanaethau yn ddiogel<br>y mae ganddynt lefel isel o risg weddilliol a photensial cyfyngedig yn unig am fuddion. | **AGORED**<br>Yn barod i ystyried yr holl opsiynau posibl am gyflwyno gwasanaethau a'u dewis wrth hefyd darparu lefel dderbyniol o fuddion. | **AWYDDUS**<br>Awyddus i fod yn arloesol a dewis opsiynau sy'n cynnig mwy o<br>fuddion busnes (er gwaethaf risg gynhenid uwch). |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfreithiol/Rheoleiddiol** | Nid oes gennym barodrwydd am benderfyniadau a allai beryglu cydymffurfio â gofynion statudol a rheoleiddiol polisi. | Byddwn yn osgoi unrhyw benderfyniadau a allai arwain at gynnydd mewn her reoleiddiol oni bai ei bod yn gwbl hanfodol. | Rydym yn barod i dderbyn y posibilrwydd o her reoleiddiol gyfyngedig. Byddem yn ceisio deall lle mae camau tebyg wedi bod yn llwyddiannus yn rhywle arall cyn gwneud unrhyw benderfyniad. | Rydym yn barod i dderbyn y posibilrwydd o rywfaint o her reoleiddiol cyhyd ag y gallwn fod yn weddol hyderus y byddem yn gallu herio hyn yn llwyddiannus. | Rydym yn barod i wneud penderfyniadau a fydd yn debygol o arwain at ymyrraeth reoleiddiol os gallwn gyfiawnhau'r rhain a lle mae'r manteision posibl yn gorbwyso'r risgiau. |
| **Enw da** | Nid oes gennym unrhyw barodrwydd am benderfyniadau a allai arwain at graffu ychwanegol neu dynnu sylw ychwanegol at y sefydliad. | Mae ein parodrwydd i gymryd risg wedi'i gyfyngu i'r digwyddiadau hynny lle nad oes siawns o sgil-effeithiau sylweddol. | Rydym yn barod i dderbyn y posibilrwydd o risg gyfyngedig i'n henw da os oes rheolaethau priodol ar waith i gyfyngu ar unrhyw ganlyniadau negyddol. | Rydym yn barod i dderbyn y posibilrwydd o rywfaint o risg i'n henw da cyhyd ag y bo posibilrwydd am<br>well ganlyniadau ar gyfer ein rhanddeiliaid. | Rydym yn barod i wneud penderfyniadau a fydd yn debygol o ddwyn craffu ar y sefydliad. Rydym yn hyrwyddo syniadau newydd ac arloesedd lle mae'r manteision posibl yn gorbwyso'r risgiau. |

| Lefel Parodrwydd i Dderbyn Risg ▶<br><br>Mathau o Risg ▼ | **GWRTH-RISG**<br>Mae osgoi risg yn amcan sefydliadol allweddol. | **MINIMOL**<br>Ffafrio opsiynau cyflwyno gwasanaethau yn ddiogel iawn y mae ganddynt lefel isel o risg gynhenid a photensial cyfyngedig yn unig am fuddion. | **PWYLLOG**<br>Ffafrio opsiynau cyflwyno gwasanaethau yn ddiogel y mae ganddynt lefel isel o risg weddilliol a photensial cyfyngedig yn unig am fuddion. | **AGORED**<br>Yn barod i ystyried yr holl opsiynau posibl am gyflwyno gwasanaethau a'u dewis wrth hefyd darparu lefel dderbyniol o fuddion. | **AWYDDUS**<br>Awyddus i fod yn arloesol a dewis opsiynau sy'n cynnig mwy o fuddion busnes (er gwaethaf risg gynhenid uwch). |
|---|---|---|---|---|---|
| **Pobl** | Nid oes gennym barodrwydd am benderfyniadau a allai gael effaith negyddol ar ddatblygu, recriwtio a chadw ein gweithlu. Cynaliadwyedd yw ein prif fuddiant. | Byddwn yn osgoi pob risg sy'n gysylltiedig â'n gweithlu oni bai ei fod yn gwbl hanfodol. Nid yw dulliau arloesol o recriwtio a chadw'r gweithlu yn flaenoriaeth a byddant ond yn cael eu mabwysiadu os ydynt wedi'u hen sefydlu ac wedi profi eu bod yn effeithiol yn rhywle arall. | Rydym yn barod i gymryd risgiau cyfyngedig o ran ein gweithlu. Wrth geisio arloesi, byddem yn ceisio deall lle mae camau tebyg wedi bod yn llwyddiannus yn rhywle arall cyn gwneud unrhyw benderfyniad. | Rydym yn barod i dderbyn y posibilrwydd o rywfaint o risg i'r gweithlu, o ganlyniad uniongyrchol i arloesi cyhyd ag y bo posibilrwydd o well recriwtio a chadw staff, a chyfleoedd i staff ddatblygu. | Byddwn yn anelu am arloesedd o ran ein gweithlu. Rydym yn barod i gymryd risgiau a allai olygu goblygiadau ar gyfer ein gweithlu ond a allai wella sgiliau a galluoedd ein staff. Rydym yn cydnabod bod arloesi yn debygol o fod yn darfol yn y tymor byr ond gyda'r posibilrwydd o fanteision hirdymor. |
| **Gwybodaeth** | Diogelu data a gwybodaeth. Rheoli mynediad yn llym, lefelau uchel o fonitro. | Lleihau lefel y risg oherwydd difrod posibl yn sgil datgeliad. | Derbyn yr angen am effeithiolrwydd gweithredol a lliniaru'r risg drwy reoli gofalus i gyfyngu ar ddosbarthu. | Derbyn yr angen am effeithiolrwydd gweithredu wrth ddosbarthu a rhannu gwybodaeth. | Lleihau lefelau rheolaethau a rhannu data a gwybodaeth yn agored. |

| Lefel Parodrwydd i Dderbyn Risg ▶<br><br>Mathau o Risg ▼ | **GWRTH-RISG**<br>Mae osgoi risg yn amcan sefydliadol allweddol. | **MINIMOL**<br>Ffafrio opsiynau cyflwyno gwasanaethau yn ddiogel iawn y mae ganddynt lefel isel o risg gynhenid a photensial cyfyngedig yn unig am fuddion. | **PWYLLOG**<br>Ffafrio opsiynau cyflwyno gwasanaethau yn ddiogel<br>y mae ganddynt lefel isel o risg weddilliol a photensial cyfyngedig yn unig am fuddion. | **AGORED**<br>Yn barod i ystyried yr holl opsiynau posibl am gyflwyno gwasanaethau a'u dewis wrth hefyd darparu lefel dderbyniol o fuddion. | **AWYDDUS**<br>Awyddus i fod yn arloesol a dewis opsiynau sy'n cynnig mwy o<br>fuddion busnes (er gwaethaf risg gynhenid uwch). |
|---|---|---|---|---|---|
| **Technoleg/Seiber** | Osgoi'n gyffredinol datblygiadau systemau / technoleg. | Datblygiadau systemau / technoleg hanfodol yn unig<br>i ddiogelu gweithrediadau presennol. | Ystyried mabwysiadu systemau a gwelliannau technoleg sefydledig /<br>aeddfed.<br>Ystyried egwyddorion ystwyth | Ystyried datblygiadau systemau / technoleg i alluogi cyflwyno gwasanaethau'n well. Posibilrwydd o ddilyn egwyddorion ystwyth | Ystyried technolegau newydd yn allweddol i gyflawni gweithredol. Mabwysiadu egwyddorion ystwyth. |
| **Asedau/Ystadau** | Rhwymedigaeth i gydymffurfio â pholisïau llym ar gyfer prynu, rhentu, gwaredu, adeiladu ac adnewyddu sy'n sicrhau gwerth da am arian. | Argymhelliad i ddilyn polisïau llym ar gyfer prynu, rhentu, gwaredu, adeiladu ac adnewyddu sy'n sicrhau gwerth da am arian. | Gofyniad i fabwysiadu ystod o atebion y cytunwyd arnynt ar gyfer prynu, rhentu, gwaredu, adeiladu ac adnewyddu sy'n sicrhau gwerth da am arian. | Ystyried manteision atebion y cytunwyd arnynt ar gyfer prynu, rhentu, gwaredu, adeiladu ac adnewyddu sy'n bodloni gofynion sefydliadol. | Defnyddio atebion dynamig ar gyfer prynu,<br>rhentu, gwaredu, adeiladu, ac adnewyddu sy'n sicrhau<br>bodloni gofynion sefydliadol. |